

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 561 • Chwefror 2025 • 70c

## Nid bradwr

Oeddech chi'n un o'r 7 miliwn a wylodd ddiweddglo cyffrous cyfres boblogaidd *The Traitors* yn ddiweddar? Darlledwyd pennod olaf y gyfres ar sianel BBC1 ddiwedd mis Ionawr, pan lwyddodd dau enillydd 'ffyddlon' i ennill ffortiwn o £94,000. Pam sôn am y gyfres yn *Llais Ogwan*, meddech chi? Bydd y rhai ohonoch oedd yn ddilynwyr pybyr yn gwybod bod Cymraes o'r enw Elen ymysg y cystadleuwyr. Ond, sawl un ohonoch sy'n ymwybodol bod Elen Wyn yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen?

Un o Dalybont ydy Elen yn wreiddiol. Bydd rhai o'n darllenwyr yn ei hadnabod fel merch Ms Rhian Haf a fu'n athrawes yn Ysgol Llanllechid am flynyddoedd, a chwaer i Alys Haf a Beca Nia. Ar ôl ei chyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen astudiodd Elen radd gyfun Cymraeg a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor cyn symud i Gaerdydd i gwblhau gradd meist'r mewn *Llais* yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Ei huchelgais yw bod yn gantores opera mezzo



BBC/Studio Lambert

soprano ac mae hi'n bwriadu parhau â'i hyfforddiant lleisiol, gan weithio fel cyfieithydd hefyd yn y cyfamser.

Yn anffodus, cafodd Elen ei hesgymuno'n ddramatig iawn o'r castell yn ystod ail raglen y gyfres, er nad oedd hi'n un o'r bradwyr. Gwnaeth yn fawr o'i chyfle euraid i godi proffil y Gymraeg drwy ddatgan i bawb yn Gymraeg wrth ymadael, 'Dwi'n ffyddlon!'.

Nid yw'r llwyfan a pherfformio yn ddieithr i Elen cofiwch a bydd rhai ohonoch yn cofio iddi fod â'i bryd ar berfformio a chanu ers ei dyddiau yn Ysgol Llanllechid a Dyffryn Ogwen. Mae'n

amlyg iddi fanteisio ar y cyfleoedd di-ri gafodd yn gynnar yn ei bywyd i serennu ar lwyfan. Mae Elen yn cofio i Mrs Helen Williams ei hathrawes yn Ysgol Sul Capel Carmel fod yn ddigon craff i sylwi a dweud wrth ei mam bod ganddi botensial fel cantores ac y dylai drïo arholiadau canu.

"Mi fu hi'n dod atai am flynyddoedd i gael gwersi canu" meddai Mrs Williams "a chyrraedd Gradd 7 cyn i mi ddweud byddai rheitiach iddi ddod o hyd i athrawes oedd yn gantores, a ro'n i'n falch iawn iddi gael mynd yn ei blaen i wneud ei Gradd 8 hefo Sian ...

(parhad ar dudalen 4.)

## Dathlu Darllen

6 MAWRTH 2025

Ydych chi'n cofio derbyn llyfr yn anrheg rhywdro, a'i drysori? Anrheg pan oeddech yn blentyn efallai, i'w ddarllen hefo Mam, Dad, Taid neu Nain. Ar Ddiwrnod y Llyfr eleni, beth am i chi roi llyfr yn anrheg i rywun arbennig? Ei roi yn syrpreis i'ch gŵr neu wraig, neu fynd â'ch ŵyr neu wyres i'r siop i ddewis llyfr i'w ddarllen hefo chi?

Ysbrydoli pobl o bob oed i

DIWRNOD Y  
LLYFR  
WORLD  
BOOK  
DAY

ddarllen ydy bwriad Diwrnod y Llyfr sydd i'w gynnal ar 6 Mawrth eleni. Yn ôl yr elusen sy'n trefnu'r digwyddiad ers 1998, mae darllen i gael hwyl yn gwella bywydau pobl heb os nac oni bai –

"darllen am hwyl ydy'r dangosydd unigol mwyaf y bydd plant yn tyfu i fwynhau bywyd hapusach a mwy llwyddiannus - mwy nag amgylchiadau eu teulu, cefndiroedd addysgol eu rhieni neu eu hincwm".

Ond mae perswadio plant i ddarllen i gael hwyl yn her

gynyddol. Dim ond 1 o bob 3 plentyn sy'n dweud eu bod yn mwynhau darllen i gael hwyl erbyn hyn, y gyfran isaf erioed. Mae Diwrnod y Llyfr felly yn gyfle i ni annog ein gilydd a'n plant, ein hwyron a'n hwyresau i weld darllen fel rhywbeth difyr, cymdeithasol a hwyliog i'w wneud.

Dwi'n siŵr y bydd ysgolion y fro yn nodi'r achlysur ac yn trefnu pob math o weithgareddau difyr, a bydd pob plentyn ysgol, fel sy'n arferiad bellach, yn derbyn taleb £1 i'w wario ar lyfr. Beth am i ninnau ymdrechu i danio diddordeb pobl o bob oed mewn

darllen ar Ddiwrnod y Llyfr eleni ac ymweld â Siop Ogwen i bori drwy silffoedd am gyfrol ddifyr i'w darllen.

Trowch i dudalen 18 i ddarllen am lyfr newydd Cymraeg fydd yn cael ei gyhoeddi'n arbennig gan Rily ar gyfer Diwrnod y Llyfr - bargaen am £1. Cewch ddarganfod hefyd pa lyfrau sydd wedi difyrru rhai o drigolion Dyffryn Ogwen yn ddiweddar.



YN Y  
RHIFYN  
HWN:



Bwyta'n  
faethlon

11



Natur o'n  
cwmpas

13

# Llais Ogwan

**Rhif 561**  
**Chwefror 2025**

## Panel Golygyddol

### Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

### Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

### Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev\_hughes@btinternet.com

### Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

### Trystan Pritchard

### Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

### Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

### Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

### Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

### Catrin Wager

(Ffôn 07366 418318)

catrinwager@yahoo.co.uk

### Fflur Roberts

(07767 473209)

fflur\_roberts@hotmail.com

## Swyddogion

### CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

### TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev\_hughes@btinternet.com

### YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

### TRYSORYDD:

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,

Lôn Newydd, Coetmor,

Bethesda LL57 3DT

(Ffôn 01248 605365 /

07949 034967)

PaulJRowlinson@outlook.com

## Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan  
**Fflur Roberts.**

Y golygydd ym mis **Mawrth** fydd  
**Catrin Wager**, Tŷ Mawr, Ffordd Coetmor,  
Bethesda, LL57 3NF.

07366 418318

E-bost: catrinwager@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**  
**1 Mawrth** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 20 Mawrth**  
yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT  
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD  
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD  
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy  
gysylltu â swyddfa  
Cymdeithas Deillion  
Gogledd Cymru,  
Bangor (01248  
353604).

Os gwyddoch am  
rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a  
hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob  
mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** – 601415

**Neville Hughes** – 600853



## Archebu trwy'r post

### Gwledydd Prydain

Yn anffodus, oherwydd  
cynnydd aruthrol yng  
nghostau postio,  
'rydym wedi cael ein  
gorfodi i godi ein pris i  
£35 y flwyddyn.



## CLWB CYFEILLION

### Gwobrau Chwefror

£30.00 Huw Davies, Gerlan (18)

£20.00 Paul Rowlinson, Lôn Newydd  
Coetmor, Bethesda (8)

£10.00 W. Arfon Evans, Erw Las,  
Bethesda (90)

£5.00 Ceri Hughes, Llandygai (128)

## Dyddiadur y Dyffryn

### Chwefror

21 Neuadd Ogwen am 7.30. MICHAEL  
MCGOLDRICK, JOHN MCCUSCER &  
JOHN DOYLE.

24 Clwb Coffi Talybont. Ffestri Bethlehem.  
10.30 – 12.00.

24 Te Bach. Ffestri Carmel, Llanllechid. 2.30 –  
4.00.

25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

### Mawrth

1 Bore Coffi Gŵyl Ddewi Plaid Cymru. Top  
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

1 Neuadd Ogwen. Dydd Gŵyl Dewi. MELYS  
A CEFNOGAETH.

4 Te Bach Crempog. Eglwys Glanogwen  
am 3.00.

8 Neuadd Ogwen. LAZULI, JONES & SON.

10 Clwb Coffi Talybont. Ffestri Bethlehem.  
10.30 – 12.00

11 HWYL Y PASG. Clwb Rygbi Bethesda am  
2.00.

11 Gorsafoedd y Groes. Eglwys Glanogwen  
am 7.00.

11 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

12 Cymd. Hanes D. Ogwen. Dafydd Fôn  
Williams. Teulu Cefnfaes a'u Stâd. Ffestri  
Jerusalem am 7.00

13 Y Gymdeithas. Cwis gan Nia Jones. Ffestri  
Jerusalem am 7.00

18 Gorsafoedd y Groes. Eglwys Glanogwen  
am 7.00.

20 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan.  
Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.

22 Neuadd Ogwen. RYAN YOUNG.

24 Clwb Coffi Talybont. Ffestri Bethlehem.  
10.30 – 12.00.

25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

28 Neuadd Ogwen. K. O. G.

## Rhoddion i'r Llais

£10.00 Di-enw, Gerlan

£8.00 Don Hughes, Halifax

£7.80 3 Llawr y Nant, Bethesda

£2.70 6 Llwyn Bedw, Llanllechid

£2.30 7 Llwyn Bedw

£2.30 8 Llwyn Bedw

£2.30 9 Llwyn Bedw

£7.20 Amrywiol, Llwyn Bedw

£4.30 Mân roddion eraill

£20.00 Er cof am J. O. Roberts, oddi

wrth Wendy, John a'r teulu,

Garneddwen

£7.80 Noreen, 12 Adwy'r Nant.

£20.00 Er cof annwyl am briod, mam

a nain annwyl, sef y diweddar

Eirlys Roberts, Cilfodan a fu

farw 10 Chwefror 2016, oddi

wrth Vic a'r teulu.

**Diolch yn fawr**


Ariennir yn  
rhannol gan  
Lywodraeth  
Cymru

CYMRAG

# Gair gan y Golygydd

Yn Chwila'r y mis hwn mae Andre wedi dewis y thema 'enwau merched Llanllechid a lofnododd Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru'. Rhag ofn nad yw rhai o ddarlennwyr Llais Ogwan yn gyfarwydd â'r ddeiseb - yn sicr doeddwn i ddim nes i mi wrando ar Meg Elis yn sgwrsio am y ddeiseb yng Nghymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen dros flwyddyn yn ôl - dyma ychydig o'r hanes...

Yn 1923 trefnodd merched Cymru ymgyrch nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen dros heddwch byd. Roeddent yn awyddus i gydweithio â merched yn Unol Daleithiau America dros fyd heb ryfel. Er mwyn sicrhau bod merched yr UDA yn clywed lleisiau merched Cymru, trefnwyr deiseb. Cafodd ei harwyddo gan 390,296 o ferched - traean merched Cymru ar y pryd. Yn ôl y sôn, mae'r ddeiseb yn 7 milltir o hyd! Aethpwyd â hi i'r UDA mewn cist dderw ac yno y cafodd ei chadw a'i harddangos gan Amgueddfa Genedlaethol Hanes America Washington DC nes iddi ddychwelyd i Gymru'r llynedd, ganrif yn ddiweddarach. Roedd Nain Meg Elis ddaeth i sgwrsio gyda'r Gymdeithas Hanes yn un o'r bedair merch aeth â'r



ddeiseb i'r UDA.

Ers i'r ddeiseb gyrraedd yn ôl i Gymru, mae lluo o wirfoddolwyr wedi ymgymryd â'r gwaith llafurus o drawsgrifio'r cynnwys. Golyga hyn graffu'n ofalus ar lawysgrifen y merched er mwyn cofnodi eu henwau a'u cyfeiriadau'n gywir. Yn sgil sgwrs Meg Elis yn y Gymdeithas Hanes, cefais fy ysbrydoli i gyfrannu at y gwaith. Mae hi'n broses araf a phob tudalen yn cynnwys rhestr o enwau a chyfeiriadau dieithr cartrefi a strydoedd ledled Cymru. Droeon bu'n rhaid i mi ofyn am gymorth Google Maps i ddeall enw ambell stryd! Wrth gyflawni'r gwaith, roedd rhywun yn dychmygu'r merched cyffredin hyn yn cynnal sgwrs dros steipan y drws am eu deisyfiad am heddwch i'r byd. Trueni nad yw arweinwyr gwledydd y byd yn gwrandao ar leisiau pobl gyffredin sy'n

deisyfu heddwch heddiw.

Tybed oes rhywun arall o Ddyffryn Ogwen wedi bod yn trawsgrifio? Byddai'n ddifyr clywed gennych. Yn sicr, mi gefais i wefr o ddarganfod enw fy hen nain o'r Bontnewydd ger Caernarfon yn y ddeiseb; welais i erioed mo'i henw yn ei llawysgrifen ei hun cyn hynny. Difyr hefyd oedd sylweddoli bod dwy oedd yn arfer byw yn ein tŷ ni, Bron Eryri, ar stryd Garneddwen, Bethesda wedi llofnodi'r ddeiseb. Ond amlygir hefyd cymaint o enwau gwreiddiol y tai ar stryd Garneddwen sydd wedi mynd i ddifancoll dros y blynyddoedd. Dim ond ein tŷ ni sy'n arddel ei enw gwreiddiol bellach - collwyd enwau tlws megis Frondderwen, Erw Fair, Tan y Fron a Llys Derwen.

Mae'r gist a'r ddeiseb a gludwyd i'r UDA bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Gobaith y trefnwyr yw cwblhau'r ymdrech fawr i drawsgrifio'r holl enwau erbyn diwedd 2025. Os ydych chi awydd chwilio am enwau merched o'ch teulu chi, ewch i'r dudalen yma ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: <https://deisebheddwch.llyfrgell.cymru>

(Dyma'r tro cyntaf i mi olygu ein papur bro. Gobeithio y bydd y cyfranwyr yn maddau i mi am unrhyw wallau anfwriadol! Mwynhewch y rhifyn. – Fflur)



Annie Hughes-Griffiths, Mary Ellis, Elined Prys and Gladys Thomas aeth a'r ddeiseb i Washington DC yn 1924.

## GWANWYN GWYRDDNI

MAWRTH 29 - EBRILL 20


Dewch i glywed dysgu, sgwrsio a rhannu  
Sesiynau "trio"- garddio, piclo a mwy  
Cyfle i ddysgu mwy am wyddoniceith hinsawdd  
Gweithgareddau difyr i bawb

Tyllu twyd lleol | Ynni cymunedol | Creu tai cynnas | Cofio traddo | Taithi'n natur

www.gwyrddni.cymru/gwanwyn

Dilynwch Llais  
Ogwan ar X  
[@Llais\\_Ogwan](https://twitter.com/Llais_Ogwan)

# Partneriaeth Ogwen




## Yr Hen Bost

Mae'n siwr bod y rhai craff yn eich mysgr wedi sylwi bod gwaith adeiladu ar Yr Hen Bost ar y Stryd Fawr ym Methesda wedi cychwyn ddiwedd mis Ionawr. Cwmni Grosvenor Construction Ltd sy'n arwain y gwaith ac mae ganddynt lawer o brofiad o gyflawni prosiectau treftadaeth leol o bwys fel Porth y Brenin yng Nghastell Caernarfon a'r Nyth ym Mangor. Bydd y cwmni adeiladu angen defnydd rhannol o'r maes parcio yn ystod y gwaith parhaus. Mae Dyfrig Jones fel Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen yn hapus i drafod unrhyw gwestiynau gyda thrigolion lleol.

Bydd Yr Hen Bost yn cynnwys canolfan dreftadaeth tri llawr newydd yn ogystal ag addasu'r adeilad presennol yn unedau

busnes. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at wireddu'r weledigaeth yma a fydd yn creu canolbwynt newydd i'n Stryd Fawr a lle i rannu hanes a threftadaeth unigryw Dyffryn Ogwen. Rydym yn ddiolchgar dros ben i bob un o'n cyllidwyr: Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyngor Gwynedd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.



## Gofod gwneud

Mae'r sesiynau agored wythnosol am ddim yn ôl! Ydych chi eisiau dysgu am argraffu 3D, neu gael help i ddefnyddio'r torrwr laser? Galwch heibio i'r Gofod Gwneud yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddydd Llun o 4 tan 8 o'r gloch i gael sgwrs gyda'n technegydd. Mae apwyntiadau eraill ar gael hefyd, cysylltwch â [gofod@ogwen.org](mailto:gofod@ogwen.org) am fwy o wybodaeth.

Mae gennym lawer o ddiwyddiadau cyffrous ar y gweill yn y Gofod Gwneud hefyd:

- 6 Mawrth – Rocedi  
Archwiliwch agweddau sylfaenol o sut mae rocedi'n hedfan yn gywir (i fyny gobeithio!) a defnyddiwch feddalwedd i ddylunio ac efelychu rhediad roced y gallem ei adeiladu mewn gwirionedd.
- 27 Mawrth – Robotiaid  
Archwiliwch yr agweddau sylfaenol o sut i raglennu robot bach gan ddefnyddio cod a rhif i reoli cyfeiriad teithio a phellteroedd.

Cysylltwch â [gofod@ogwen.org](mailto:gofod@ogwen.org) am fwy o wybodaeth ac i archebu lle!

## ...parhad o'r dudalen flaen.

Gibson o'r Dolydd. Rydan ni'n dal yn ffrindia mawr chi, a dwi'n meddwl y byd ohoni. Dwi'n hynod falch ei bod hi'n cael sylw o'r diwedd gan i Covid darfu ar gyfleoedd iddi berfformio mewn cyngherddau ac ati yn ystod ei chyfnod yn y coleg." Yn sicr wnaeth Covid ddim rhoi stop ar ganu Elen.

Bu Sian Gibson yn rhoi gwersi llais i Elen am weddill ei harddegau ac yn ystod ei chwrs gradd ym Mhrifysgol Bangor, gan feithrin ei dawn a'i dyheadau a'i chefnogi i sicrhau lle yn y Coleg Brenhinol yng Nghaerdydd. Aeth Elen ymlaen i ennill cystadleuaeth y categori mezzo-soprano yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2024, a chyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Osborne Roberts.

Tra oedd Elen yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, enillodd Fedal yr Ifanc yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Roedd hi hefyd ymhlith yr 50 o drigolion yr ardal oedd yn aelodau o'r cast cymunedol a droediodd lwyfan newydd sbon Pontio efo actorion proffesiynol Theatr Genedlaethol Cymru 'nôl yn 2016 i berfformio'r cynhyrchiad 'Chwalfa'.

Fel y dywedodd yn un o'r cyfweiliadau niferus a gynhaliwyd ers gadael y castell, "Dwi 'di bod yn perfformio ers pan o'n i'n



Elen ac aelodau rhai o gast cymunedol 'Chwalfa' ar lwyfan Pontio.

blentyn ac felly wedi hen arfer rhoi masg ymlaen a mynd i'r 'zone' yna o fod yn rhywun arall – ro'n i'n meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol ar The Traitors, yn enwedig petawn i wedi cael fy newis i fod yn fradwr".

Rwy'n siŵr bod darllenwyr y Llais yn ymfalchïo yng nghyfraniad Elen ar The Traitors ac yn enwedig pa mor benderfynol oedd hi o ddefnyddio'r cyfle i i hyrwyddo'r Gymraeg o flaen miliynau o bobl. Mae'n anodd mesur dylanwad hynny ond efallai bod un ystadegyn a gyhoeddwyd yn ystod

cyfweiliad Elen ar raglen Trystan ac Emma ar Radio Cymru yn arwydd o'r effaith a gafodd hi o ran tanio diddordeb pobl yn ein hiaith - cynnydd o 223% yn nifer y bobl oedd wedi chwilota ar-lein am ddsygu Cymraeg yn sgil gwyllo The Traitors. Gwych iawn, Elen.

(Gyda llaw, mae croeso i bobl o bob oed yn y castell yn yr Alban! Mae cwmni teledu Studio Lambert bellach yn chwilio am gystadleuwyr ar gyfer cyfres 4 The Traitors. Tybed oes gan un o ddarllenwyr Llais Ogwen awydd mynd amdani?)

# YSGOL PEN-Y-BRYN AC ABERCASEG

## Dathlu Santes Dwynwen

Fel rhan o brosiect 'creu busnes' yr ysgol bu plant blwyddyn 3 a 4 yn brysur yn coginio a phobi cacennau i'w gwerthu i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Gwerthwyd pob un fisged flasus a gwnaed elw fydd yn cael ei fuddsoddi i gychwyn y prosiect nesaf. Gwych iawn blant.

## Gwobrwyo

Mae llawer o blant wedi derbyn cerdyn canmol yn ystod y mis yma am wella eu presenoldeb, ymdrechu gyda'u gwaith, bod yn gwrtais a chlên, gweithio'n galed, am siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau ac ati. Bydd pawb sydd yn derbyn cerdyn canmol yn cael rhoi pêl pwyntiau yn y jar. Tybed pa ddsbarth a fydd gan y nifer uchaf o bwyntiau erbyn diwedd y mis? Mae pawb wrthi'n gweithio'n galed i drïo bod ar y brig, ac i ennill gymaint o funudau aur at ddiwedd y mis - da iawn chi blant.

## Presenoldeb Gwych

Mae presenoldeb yn flaenoriaeth bwysig iawn gennym ac yn cael pwyslais uchel gan Gyngor Gwynedd. Wrth gwrs, mae presenoldeb uchel yn cael effaith positif ar ddatblygiad academaidd, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn. Derbyniodd canran uchel o blant dystysgrif am gyrraedd targed presenoldeb yr ysgol o 95%. Gwych iawn, a daliwch ati am weddill y flwyddyn.

## Ymweliad Osian Candelas

Braf oedd cael croesawu Osian Williams o'r band Candelas i gynnal gweithdy cerddoriaeth gyda Blwyddyn 3. Roedd y plant wrth eu boddau yn bod yn greadigol wrth wrando ar wahanol gerddoriaeth. Edrychwn ymlaen at y wers nesaf gan ein bod wedi mwynhau yn fawr.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau fil i Efa o ddsbarth Elidir sydd wedi dod yn fuddugol yng nghystadleuaeth dylunio pítsa i'w gwerthu ym mwyty Gallt y Glyn (Pítsa a Pheint Llanberis). Erbyn hyn mae pítsa Efa ar y fwydlen yn barod i chi ei dewis a'i mwynhau. Diolch o galon i Elin, perchennog Gallt y Glyn am ddod i gyflwyno'r wobwr i Efa, sef taleb hael i'w wario yno. Rydym yn hynod ddiolchgar, ac yn sicr mae plant Elidir wedi elwa o ymweliad Elin wrth fynd ati i greu busnesau llewyrchus sydd bellach wedi eu sefydlu.



## Ffair Fusnes Dosbarth Elidir a Glyder

Bu'r plant yn brysur yn sefydlu busnesau amrywiol yn gwerthu cynnyrch megis bathodynau, breichledi, cacennau, crempogau, diodydd trofannol a salad ffrwythau. Roedd rhaid dangos mentergarwch wrth gynllunio'r busnes, prisiu'r gost cynhyrchu a phenderfynu ar y pris gwerthu er mwyn ceisio sicrhau bod y busnes yn gwneud elw. Mynychodd rhieni a chyd ddisgyblion y ffair fusnes ac mae'n braf cyhoeddi bod pob un busnes wedi gwneud elw. Dyma i chi entrepreneuriaid y dyfodol!



Dilynwch Llais  
Ogwan ar X  
@Llais\_Ogwan

**JOHN  
ROBERTS**

**Paentiwr  
Papurwr  
Teilsiw**

Symudol:  
07747 628650  
Ffôn: 01248 600995



## CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369  
neu 07813 455653



## Mark Davies

07447804110



Gwasanaethu  
Prawf Nwy  
Prawf Trydanol  
Prawf Tamprwydd  
Atgyweirio  
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru



## L. STURRS A'I FEIBION

SEFYDLWYD YN 1965

## ADEILADWYR

HEN IARD STESION,  
FFORDD Y STESION, BETHESDA

FFÔN: 600953  
isturrs@googlemail.com

## UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

Gan Andre Lomozik

## RHAN 25

## 22 OGWEN TERRACE, BETHESDA

Dyma ni wedi dod at yr olaf o dai Ogwen Terrace, Bethesda. Hugh Hughes, yn enedigol o Drefriw, ac yn ŵr sengl 41 oed, oedd yn byw yn rhif 22 yn y flwyddyn 1871. Meddyg oedd Hugh yn ôl y cyfrifiad. Roedd lletywr o'r enw David Parry, a morwyn o'r enw Elizabeth Williams, yno hefyd. Meddyg cynorthwyol oedd David, ac yn enedigol o Lansannan. Roedd o yn 27 oed. Merch 37 oed o Bont Senni oedd Elizabeth y forwyn.

Mae'r meddyg Hugh Hughes yn dal i fyw yn rhif 22 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1881, ac mae'r canlynol yn cael eu henwi yno ar noson y cyfrifiad: Margaret Mary Williams, nith, merch sengl 22 oed yn enedigol o Gaernarfon, yn cadw tŷ i Hugh Hughes; Margaret Williams, ymwelydd o Drefriw, ac yn nodi mai chwaer i Hugh Hughes ydoedd: Elizabeth Williams, morwyn o Bont Senni ac wedi bod yng ngwasanaeth Hugh Hughes ers o leiaf ddeng mlynedd, ac yn nodi ei bod yn weddw (roedd hi'n sengl yn 1871); John Roberts, yn gynorthwywr, o Benygroes, ac yn 20 oed; a William Parry, gwas yn enedigol o Landygái.

Mae llythyr yn ymddangos yn *Y Genedl Gymreig* ddydd Mercher 28, Tachwedd 1888 gan Hugh Hughes, yn gofyn am gefnogaeth ardalwyr Bethesda yn ei ymgais i fod yn gynghorwr sirol ar eu rhan.

Dyma ran o'r llythyr: 'Sir Gaernarfon. Etholiad y Cyngor Sirol. At Etholwyr Ardal Bethesda. Foneddigeau a Boneddigion, Gan fod Etholiad Aelodau'r Cyngor Sirol, dan Ddeddf Newydd y Llywodraeth Leol, yn agos hau, dymunaf gynnig fy hun i'ch sylw fel ymgeisydd am yr anrhydedd o'ch cynrychioli ar y Cyngor hwnnw.

Yr ydwyf yn apelio am eich pleidleisiau, nid oddi ar unrhyw ystyriaeth wleidyddol (political), ond yn unig oddi ar olygiadau cyhoeddus, fel un ag sydd yn ewyllysio lles cyffredinol a ffyniant gwirioneddol ei ardal, gan fy mod o'r farn fod dwyn i mewn wleidyddiaeth (party politics) ynglŷn â gweinyddiad materion lleol yn niweidiol i wir lesiant y cyhoedd. Pa beth bynnag ydyw ein barnau gwleidyddol, credaf fod ein hanghenion lleol yr un.'

Mae'n diweddu ei lythyr gyda'r geiriau hyn: 'Hyderaf y bydd i'r ymddiriedaeth a fwynheais oddi ar eich dwylaw yn y gorffennol gael ei hadnewyddu ar yr achlysur presennol. Ac os bydd i chi fy anrhydeddu trwy fy ethol fel eich cynrychiolydd gallaf eich sierhau y gwnaf ymdrechu yn eginol dros wir lesiant yr ardal, yn ogystal â'r sir yn gyffredinol.

Ydwyf, Foneddigeau a Boneddigion, Eich ufudd wasanaethwr, Hugh Hughes. 22, Ogwen Terrace, Bethesda. Tachwedd 20fed, 1888.'

Roedd Hugh Hughes yn sefyll yn erbyn William John Parry a George Brymer, a'r canlyniadau a gyhoeddwyd ar ôl yr etholiad oedd W. J. Parry (L) 769, G. Brymer (L) 758 a Hugh Hughes (C) 497.

Erbyn cyfrifiad 1891 mae Hugh Hughes wedi ei godi yn Ynad Heddwch, yn ogystal â bod yn feddyg. Ar wahân i Hugh a Margaret Mary ei nith oedd yn byw yn y tŷ yn 1881 mae ychwanegiad at y rhai sydd yno yng nghyfrifiad 1891, sef John Robert Williams, nai wedi ei eni yng Nghaernarfon yn 1863 ac yn feddyg; Jenkyn Lloyd, yn feddyg hefyd ac yn enedigol o Landdeiniol, Sir Aberteifi; Elizabeth Parry, yn forwyn/cogyddes, o Lanfair-is-gaer; Thomas Williams, gwas o Gapel Curig, ac yn gerbydwr; ac yn olaf, Margaret Williams yn enedigol o Fethesda yn forwyn gegin.

Priodwyd Margaret Mary, nith Dr Hugh Hughes, â Dr Jenkyn Lloyd, Mai 28, 1891, a chawn adroddiad o'r briodas yn *Y Llan a'r Dywysogaeth*, Mehefin 5, 1891, tud. 3. Dyma grynodedd o'r adroddiad,

'Bethesda. Priodas y Meddyg Lloyd. – Wedi gostegion arferol, yn unol â threfn odidog ein Heglwys, unwyd wrth allor Glanogwen, ddydd Iau diwethaf, mewn glân briodas, y meddyg Jenkyn Lloyd, â Miss Maggie Williams, merch y diweddar Mr John Williams, llyfrwerthwr, Bridge Street, Caernarfon, ond sydd wedi bod yn preswyllo ers blynnydoedd bellach gyda'i hewythr, Dr Hughes, Y.H., Ogwen Terrace, Bethesda. Gallwn ddweddyd yn ddibetrus nad oes neb yn fwy ei barch yn yr ardaloedd poblogaidd hyn na'r meddyg galluog Lloyd. Mae yn fardd a llenor gwych, ac fel arweinydd eisteddfod neu gyngerdd nid oes ei ragorach yn y cychoedd hyn. Mae Miss Williams (yn awr Mrs. Dr. Lloyd) yn ferch ieuanc siriol a hawddgar, ac adnabyddir hi gan y tlawd a'r anghenus fel un hynod am ei charedigrwydd a'i chymwynasgarwch. Nid rhyfedd gan hynny fod Bethesda y diwrnod dan sylw â baner yn chwifio agos o bob tŷ, ac eglwys eang a phrydferth Glanogwen wedi ei gorlenwi gan dyrfa barchus wedi dod ynghyd yn llygad dystion o'r amgylchiad hapus. Er mwyn dangos eu diolchgarwch i deulu y briodas am

eu caredigrwydd neilltuol atynt yn y gorffennol, daeth aelodau'r côr ynghyd yn gryno er mwyn i'r gwasanaeth fod yn gwbl gorawl. Fel arferol, gwasanaethai Mr John Roberts yn fedrus ar yr organ, ac yr oedd rhan fechan o'r gerddoriaeth wedi ei drefnu ganddo yn bersonol.'

Mae'r adroddiad yn darfod gyda'r geiriau hyn: 'Ar ôl ciniawa yn Ogwen Terrace, ymadawodd y pâr dedwydd i dreulio eu "mis mêl" yn y Brifddinas a'r Cyfandir. Canwyd clychau'r eglwys a'r ysgolion, a thaniwyd craig fagnelau (carreg cannon) Braichmelyn a Chraig-y-Dinas (Pen Dinas, Tregarth) i ddathlu'r amgylchiad. Yn yr hwyr daeth y Penrhyn Royal Band allan i chwarrau alawon soniarus i ddifyrru'r tyrfa oedd oeddynt wedi cyrchu i Fethesda.'

Bythefnos yn ddiweddarach mae'r pâr ifanc yn cyrraedd adref o'u mis mêl, ac yn y newyddiadur *The Herald*, dydd Gwener, Mehefin 19, tud. 8, mae'r adroddiad yma yn Saesneg yn ymddangos. (wedi ei gyfieithu)

## 'CROESO ADREF I DR A MRS JENKYN LLOYD, BETHESDA.

Ar eu dychweliad gartref nos Sadwrn o'u mis mêl croesawyd Dr a Mrs Jenkyn Lloyd yn eiddgar gan y dorf. Roedd paratodau eisoes wedi eu gwneud cyn i'r pâr gyrraedd adref gyda thrên wyth o'r gloch, a rhoddwyd croeso brenhinol iddynt. Roedd y ffordd i'r orsaf yn orlawn gyda gwylwyr, a threfnwyd gorymdaith gyda Band y Penrhyn a'r Odyddion yn arwain i fyny'r stryd fawr, tuag at Ogwen Terrace, gyda'r dorf yn chwifio cadach poced ayb. Roedd baneri i'w gweld ymhobman ar hyn y ffordd a thannwyd cerrig cannon mewn anrhydedd iddynt. Pan gyrhaeddodd Dr Lloyd a Mrs Lloyd eu cartref diolchodd Dr Lloyd y dyrfa am eu croeso. Diolchodd Dr Hughes y dyrfa hefyd am holl garedigrwydd yr ardal i'r pâr ifanc.

Yna aeth y dorf i ardal Pantdreiniog i weld arddangosfa tân gwyllt a drefnwyd gan Mr Chadwick, Victoria Hotel, wedi ei gynorthwyo gan Mr Jarvis, Gerlan a T. Price Thomas, Victoria Place.'

Ac yna'r flwyddyn ganlynol, ganwyd Ifor Hughes Lloyd iddynt ar y 14<sup>eg</sup> o Awst 1892,



y chydig fisoedd cyn marwolaeth Dr Hugh Hughes yn sydyn yn nhŷ ei nith, sef Menai View, Caernarfon, ar yr ail o Hydref 1892. Roedd yn 63 mlwydd oed.

Cawn amryw o adroddiadau yn y newyddiaduron yn sôn am ei waith diflino yn yr ardal ers pryd y daeth i'r gymdogaeth i fyw, 38 o flynyddoedd ynghynt. Roedd yn flaenllaw mewn amryw o weithgareddau yn y pentref, ac yn ogystal â bod yn feddyg, yn Ynad Heddwch, meddyg hynaf Undeb Bangor a Biwmares, a Chadeirydd Bwrdd Lleol Bethesda.

Mae adroddiad am ei gynhebrwng i'w weld yn *The North Wales Express*, Hydref 14, 1892, tud. 6.

Bron i ddeng mlynedd yn ddiweddarach bu farw Dr Jenkyn Lloyd gan strôc, fis Tachwedd 1901. Roedd yn 47 oed. Mae cysylltiad y teulu â Bethesda yn dod i ben ychydig amser ar ôl ei farwolaeth, gan fod ei wraig a'i mab wedi ymadael â Bethesda a mynd i fyw at ei brawd, Dr Williams, ym Mhenmaenmawr.

Ond rai blynyddoedd wedyn mae ffenestr lliw yn cael ei chyflwyno i Eglwys Crist, Glanogwen er cof am Dr Hugh Hughes gan ei nith, Mrs Jenkyn Lloyd.

Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu ar y ffenestr:

*To the Glory of God and in Loving Memory of*



*Dr H. Hughes, J.P. of this Parish, who departed this life 2<sup>nd</sup> Oct. 1892, aged 63 years. Beloved in life, Lamented in death.*

(Stained glass East Window, the gift of Mrs Jenkyn Lloyd, Ardre, Penmaenmawr, in Memory of her uncle, Dr H. Hughes, Erected by Messrs J. Wippel & Co. Exeter, from the design of Mr J. Ives of Exeter. It was unveiled by Mssrs Hugh Llechid Williams (Warden) and Richard

Hughes, and dedicated by the Vicar on Sunday afternoon 29<sup>th</sup> July 1929)

Dyma ni wedi dod i ddiwedd hyn o ymchwil i Ogwen Terrace, Bethesda. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn, ond mae'r hyn sydd wedi cael ei gofnodi yn rhoi ychydig o oleuni ar fywyd y rhes yn ystod hanner can mlynedd cyntaf ei bodolaeth. Gobeithio eich bod fel darllenwyr y *Llais* wedi cael mwynhad o'i ddarllen.

**1969**  
**M.HUGHES**  
**A'I FAB**

**CONTRACTWYR TOI**  
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,  
Bethesda ☎ 600633  
☎ (symudol) 07702 583765  
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**BYSUS**  
**D. P. OWENS**  
**RHIWLAS**

01248 361044  
07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - triapiau, priodasau, partion ac ati.

***Bysus Gwyrdd Rhiwlas***

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL  
A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997  
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED

**A.G.L.**  
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.  
Ffôn: 01248 602117  
Symudol: 07835487909

**DAFYDD**  
**CADWALADR**  
CYNHYRCHION COEDLANNOL

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed

**01248 605207**

**Londis**  
BETHESDA

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**J. TEMPLE MORRIS**  
**A'I FAB**

**Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.**

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.  
07770 900531 | 01248 600282  
jtempl Morris@btinternet.com

Beth sy'n  
digwydd yn  
y Dyffryn

## HWYL Y PASG

Partneriaeth Ogwen yn cynnal prynhawn difyr i bensiynwyr ardal Dyffryn Ogwen

**yng Nghlwb Rygbi Bethesda  
brynhawn Mawrth,  
Mawrth 11 am 2.00.**

Bydd Dylan a Neil yno'n difyrru a bydd tē prynhawn blasus i bawb.

Cyfle i weld hen ffrindiau a chael sgwrs. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Linda Brown ac i archebu cludiant cysylltwch ag Esme yn y Dyffryn Gwyrdd/Partneriaeth Ogwen



## Dyddiadur Boreau Coffi

01 Mawrth – Plaid Cymru

– Top Cefnfaes

12 Ebrill – Eisteddfod Gadeiriol

Dyffryn Ogwen – Festri Jerusalem



CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Chwefror 25  
Mawrth 11 a 25

am 7 o'r gloch.  
Croeso i bawb



## Clwb Coffi Talybont

### FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Chwefror 24  
Mawrth 10 a 24

Croeso cynnes i bawb

CANOLFAN CEFNFAES (TOP)

Bore Coffi  
Gŵyl Ddewi  
Plaid Cymru

Mynediad - £1.00



Sadwrn, 1af Mawrth  
10.00 - 12.00

Festri Carmel,  
Llanllechid

## TE BACH

Dydd Llun,  
24 Chwefror

2.30 – 4.00



## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 10 Mawrth  
am 7.00

**Darlith Goffa  
Rhiannon Rowlands  
gan**

**Dafydd Fôn Williams**

“Teulu Cefnfaes a'u Stâd”

**Lleoliad y Cyfarfodydd:**

Wyneb yn wyneb: Yn festri Capel  
Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo  
garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo  
bethan@ogwen.org erbyn 12 o'r gloch  
dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

**FFI AM Y CWRS:**

£10.00 i rai mewn gwaith

£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith

Plant ysgol am ddim

Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif “Cymdeithas  
Hanes Dyffryn Ogwen” drwy:  
BACS: 40-16-02 41386212, neu  
Gydag arian parod ar y noson.



Dilynwch Llais Ogwan ar X  
**@Llais\_Ogwan**


Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen  Plaid Cymru



Tregerth a Myrnydd Llandygai • cynghorydd.BecaRobertsegwynedd.llyw.cymru • 07436 927237  
Gerlar • cynghorydd.EiniWynWilliamsagwynedd.llyw.cymru • 07747 690456  
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinaltPuwegwynedd.llyw.cymru • 07785 742092  
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurigagwynedd.llyw.cymru • 07765 400140  
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinscagwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

## STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA  
GWASANAETH PERSONOL  
PEDAIR AWR AR HUGAIN  
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976  
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Mi fydda i reit hoff o wneud cacan gri, rhyw damaid blasus digon sydyn heb orfod chwilio am risêt na dim. Gofynnwyd i mi tybed beth oedd ystyr y gair 'cri' a dyma fynd i holi. Dyma'r esboniad dw i wedi ei dderbyn. Mae'r gair 'cri' yn medru golygu 'gwaedd' a 'llef', ac mae o hefyd yn medru golygu 'garw' a 'bras'. Felly, cacan gri ydy teisan sydd wedi ei gwneud yn sydyn mewn ffordd arw neu fras, hynny ydy heb ddefnyddio burum ac a oedd yn arfer cael ei phobi ar radell, sef llechan neu blât haearn crwn.



## Ambell Air ac Ymadrodd

### Drws

Mae rhai dywediadau'n cynnwys y gair 'drws'. Dyma i chi ambell un. Sgwn i wyddoch chi am rai eraill? Mi ddwedwn am rywun mawr, cryf fod ganddo fo **gefn fath â drws**. Pan fydd rhywun yn cael cyfle i wella'i hun o ran ei swydd neu ei statws, mi ddwedwn ni fod **drysau wedi agor** iddo fo neu hi. Ond pan fydd rhywun yn cael ei wrthod a chael siom, y dywediad ydy fod y **drws wedi ei gau yn ei wyneb o**. Pan fydd rhywun yn cael swydd mewn ffordd amheus, mi ddwedwn ni fod o neu hi wedi cael mynd i mewn **drwy'r drws cefn**. Os bydd rhyw

hanner cyfle yn dŵad i gyflawni rhywbeth, mi ddwedwn ni ei fod y cyfle **wedi agor cil y drws**. Os bydd rhywun yn sefyll rhyngom ni a'r hyn rydan ni'n edrych arno fo, yr hyn ddwedwn ni wrtho fydd **'Ti'n well drws na ffenast!'**

**harthio**. 'arthio' ydy hwn, sef rhuo fel arth; gweiddi'n uchel ac yn fygythiol – "Glywaist ti hwn'na'n harthio ar y plant 'na?"

**cwfwfwr**. Mynd i gyfarfod rhywun ydy hwn – "Dŵad ar y trên mae hi. Dwi'n mynd i stesion Bangor i'w chwfwfwr hi."

**mynd ar draws tŷ**. Tarfu ar rywun yn ei gartref ydy hwn, er enghraifft rhywun yn drws yn dweud "Ddo i ddim i mewn. Dw i'm isio mynd ar draws tŷ."

**gefal doli**. 'Gefail bedoli' ydy hon. Offer i dynnu hoelion. Yn wreiddiol, dyma'r efail yr oedd y gof yn ei defnyddio i dynnu hoelion pedolau ceffylau.

**gweld sêr(s)**. Disgrifiad o'r fflachio yn y llygaid pan fydd eich pen yn cael ergyd drom – "Mi darodd o ei 'ben nes oedd o'n gweld sêr."

**trowsus ffustion**. Enw arall ar drowsus melfaréd chwarelwr ydy hwn. Defnydd garw, cryf oedd ffustion.

**stwmp ar stumog**. Rhywbeth neu rywun sy'n troi arnoch ydy hwn yn yr ystyr o fynd yn fwrn ar rywun; cael llond bol ar rywun neu rywbeth.

**stwmp sigarét**. Bonyn sigarét ydy hwn - yr hyn sydd ôl na fedrith neb ei ysmegu heb losgi ei wefusau.

**paldaruo**. Siarad yn ddiiddiwedd am bethau dibwys. Daw o'r Saesneg 'palter' yn wreiddiol - "Dos o'ma i baldaruo!"

**rhoi clec**. Gwneud rhywbeth yn sydyn ydy

hwn – "Rho glec i'r peint 'na inni gael un arall"; "Rown ni glec i'r joban yma gyntaf inni ei chael hi o'r ffordd."

**ar ei hald**. Teithiau cymharol fyr o gwmpas y lle, mynd heb wneud fawr o drefniadau.

**Chwa**. Diolch i Olive Williams, Maes y Garnedd. Byddai mam Olive yn dweud nad oedd y dillad yn symud dim ar y lein gan nad oedd chwa o wynt. Gair sydd yn cael ei ddefnyddio i'r un pwrpas ydy **rhithyn** "doedd 'na ddim rhithyn o awyr iach yno." O'r gair 'rhith' y daw hwn sef image yn Saesneg.

**Hyrdio**. Wel rydym wedi dod i arfer gyda stormydd a'r rheini, y dyddiau hyn, yn cael enwau arbennig. Clywir yn y bwletinau tywydd am wyntoedd yn 'hyrdio' sy'n llawer iawn cryfach na chwa o wynt. Allwch chi feddwl am hwrdd, sef maharen, yn rhoi ei ben i lawr ac yn taro'n ddirugaredd, felly mae gwynt yn hyrdio. Fe ddefnyddiwn 'hwrdd o wynt' yn aml yn Nyffryn Ogwen.

**diri-dano**. Diolch eto i Mrs Nel Williams. Roedd yn sôn am berson yn eistedd yn hapus yn gwneud dim byd fel rhywun 'diri dano.'

**stwna**. Gair digon tebyg i 'dindroi' rhyw edrych o gwmpas am rywbeth i wneud, ond gwneud dim mewn difri.

**eira oen bach**. Rwyf wedi crybwyll hwn o'r blaen, ond mae'n un rhy dda i beidio a'i nodi eto gan fod canol Chwefror wedi cyrraedd ac ni fydd yn hir tan y gwanwyn. Dywediad a glywais gan Hilda Campbell oedd yn cofio ei mam yn ei ddefnyddio. "Eira oen bach ydy hwn, fydd o ddim yma'n hir."

Diolch am eich cyfraniadau, cofiwch anfon neu alw Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642, [maryeds@hotmail.co.uk](mailto:maryeds@hotmail.co.uk)

# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caerdybi - Bae Cinnel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.



 Bethesda 01248 600 045

 [bethesda@cljonesltd.co.uk](mailto:bethesda@cljonesltd.co.uk)

# YSGOL LLANLLECHID

## Edrych yn ôl ac ymlaen

Cafwyd noson i'w chofio yn Theatr Bryn Terfel, Pontio ym Mangor i ddatlu penblwydd yr ysgol yn 70 oed. Roedd ein disgyblion hynaf wedi creu fideo arbennig oedd yn rhychwantu'r cyfnod, wedi ei selio ar rai o raglenni poblogaidd S4C, i'w ddangos ar sgrin anferth. Daeth Celt, y grŵp roc o Rachub, i rannu'r noson hefo ni a diolchwn i bob un o'r aelodau o waelod calon am eu perfformiadau anhygoel. Cafwyd gwledd. Yr hyn fydd yn aros yng nghof y rhan fwyaf ohonom am amser maith yw bod Martin Beattie ar ôl cychwyn canu ychydig linellau o'u can 'Streets of Bethesda' wedi rhoi'r gorau i ganu. Pam tybed? Wel, am fod ein disgyblion ni yn canu'r gan gyda'r fath angerdd! Yn wir, roedd rhai o'r aelodau o dan deimlad, ac ar ddiwedd y gân, yn hytrach na chlywed y gynulleidfa yn cymeradwyo Celt beth gafwyd ond Celt yn cymeradwyo ein plantos arbennig ni! Bu'n anrhydedd cael rhannu'r noson hefo chi. Ar y noson cafwyd cyfraniadau arbennig hefyd gan Sioned Webb (cyfeilydd), Tammy Jones (unawdydd) ac Elin Taylor (soddgrwth) heb sôn am ein disgyblion, i gyd ar eu gorau. Diolch arbennig i Mrs Delyth Humphreys am arwain y côr a'r eitemau. Bu'n noson i'w chofio!

## P'nawn agored 70 oed

Cafwyd prynhawn agored gwerth chweil hefyd wrth i'r ysgol agor ei drysau i'r gymuned i ddatlu 70 oed. Braff oedd cael croesawu pawb, yn enwedig y cyn brifathro Mr Arwyn Oliver. Roedd arddangosfa werth chweil wedi ei gosod yn neuadd yr ysgol, a digon o gyfle i bawb gael bwrw golwg drwy hen luniau a llyfrau log ac ati, cyn cael amser i ymweld â'r plantos yn eu dosbarthiadau. Diolch i bawb a gyfrannodd at y fideo. Braff gweld rhai o'r cyn staff, gan gynnwys Andrew Angel o Awstralia bell. Diolch i bawb a ddaeth draw i ymweld â ni; roedd hi'n braff iawn eich gweld. Byddwn yn rhannu'r fideo a gynhyrchwyd ar ein gwefan maes o law.

## Bingo Pasg

Cynhelir Bingo Pasg yn y Clwb Criced ar 3 Ebrill am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb a diolch i'r Cyfeillion am drefnu. Dewch yn llw!

## Diolch

Dymunwn ddiolch o waelod calon i Londis Bethesda a Sgaffaldiau Luke Mabon am noddi ein citiau pêl droed. Rydym wrth ein boddau ac yn hynod ddiolchgar.



## Capel Carmel

Llawer o ddiolch i Mrs Helen Williams am groesawu ein disgyblion i Gapel Carmel yn ddiweddar i ddi-ddanu Clwb yr Henoed. Treuliyd orig ddifyr yng nghwmni ein gilydd, llawer o ddiolch i chi am y cydweithio hwylus. Bu'n fraint cael dod draw i'r Festri atoch.

## DJ Efan Electro

Llongyfarchiadau aruthrol i'r DJ Efan Electro ar ei gamp. Bu S4C yma yn ffilmio Efan, sydd â dawn DJ heb ei ail! Dal ati a llongyfarchiadau!



# POSTMON, MILWR, ACTOR

## Portread o Keith Griffith, Maes Ogwen Tregarth

Brodor o Ddyffryn Ogwen ydy Keith Griffith, yn byw ers blynyddoedd lawer ym Maes Ogwen Tregarth. Mae'r gŵr rhadlon 75 oed yn weddw ers colli ei wraig Mary rai blynyddoedd yn ôl ac yn frawd i'r diweddar Dafydd Griffith, gŵr Gillian Llan. Mae bywyd Keith yn un llawn profiadau difyr ac yn werth eu rhannu gyda darllenydd Llais Ogwan.

Am ran helaeth o'i fywyd, bu Keith yn bostmon yn dosbarthu llythyrau a pheccynnau a dod yn wyneb cyfarwydd i lawer yn ei gymuned.

Ar y penwythnosau byddai'n gwasanaethu yn y fyddin diriogaethol (Territorials). Bu'n gwneud hynny am 16 o flynyddoedd ac erbyn diwedd y cyfnod roedd wedi ei ddyrchafu yn Swyddog Gwarant yn Nhrydedd Bataliwn y Ffiwsilwyr



Cymreig. Lluniodd gyfeillgarwch cryf yn ystod yr amser hwnnw ac roedd hi'n benderfyniad naturiol i'r cyn-filwr gadw'r berthynas a'r cyfeillgarwch yn fyw. Un ffordd o wneud hynny oedd cyfarfod am frewast yng

Nghaernarfon ar foreau Sadwrn, ymdrech y cyn-filwyr i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd er lles eu hiechyd a'u meddwl.

Bu Keith hefyd yn aelod o Gôr Rygbi Gogledd Cymru am flynyddoedd a thrwy hynny cafodd fod yn rhan o'r dathliadau i gofio aberth hogia ifanc

Cymru yn y rhyfel byd cyntaf pan oedden nhw wedi eu gyrru i frwydro yng ngwlad Belg a gogledd Ffrainc.

Mae pawb sy'n nabod Keith yn gwybod am ei gariad at actio, diddordeb a daniwyd


gyntaf pan oedd yn aelod o gwmmi theatr Llechen Las yn Nyffryn Ogwen. Wedyn, yn 2016 cafodd y profiad anhygoel o fod yn rhan o lwyfaniad Theatr Genedlaethol Cymru o 'Chwalfa', T Rowland Hughes. Dewiswyd 50 o drigolion lleol i fod yn rhan o'r cast cymunedol ar gyfer llwyfaniad 'Chwalfa', drama oedd yn rhan o'r dathliadau i agor theatr Pontio a chafodd Keith rannu llwyfan hefo actorion proffesiynol a phrofiadol.

Nid yw ei berfformiadau wedi'u cyfyngu i'r llwyfan; daeth â'i sgiliau i'r sgrin hefyd, gan chwarae carcharor yng nghefndir y gyfres deledu 'Bariau' ar S4C. Ei gyfeillgarwch ag un o'i ffrindiau yn y fyddin arweiniodd at y cyfle annisgwyl i fod yn estra yn y gyfres. Er gwaethaf ei rolau amrywiol - postmon, milwr, actor, ac aelod o'r côr - mae Keith yn parhau i fod ai draed ar y ddaear. Mae ei frewast bore Sadwrn yng Nghaernarfon gyda hen ffrindiau yn y fyddin yn dyst i'w ymroddiad i gynnal perthynas a chefnogi ei gyd-filwyr. Wrth iddo edrych tua'r dyfodol, mae Keith yn gobeithio parhau i actio ac yn mawr obeithio y bydd trydedd cyfres o 'Bariau' yn rhoi cyfle iddo gydio eto yn ei gymeriad, sy'n parhau dan glo!

# Bwyta'n faethlon

Tybed sawl un ohonom wnaeth addunedu ar ddechrau mis Ionawr mai dyma'r flwyddyn i wella ein deiet er mwyn colli pwysau? A faint ohonom sydd wedi llithro'n barod?! Efallai ein bod yn canolbwyntio ar y pethau anghywir, ac na ddylem feddwl yn ormodol am 'gollu pwysau' ond yn hytrach ar fabwysiadu arferion bwyta maethlon?

Dyna gyngor y maethegydd Angharad Griffiths. Bydd rhai ohonoch wedi gweld Angharad ar y teledu yn ddiweddar gan mai hi oedd maethegydd cyfres newydd 'Tŷ Ffit' ar S4C. Bu'n gyfrifol am greu cynllun maeth ar gyfer y 5 person oedd yn ddigon dewr i fentro i'r 'Tŷ Ffit' bob penwythnos am ddeufis. Wrth wrando arni, mae rhywun yn sylweddoli bod cymryd camau bach i addasu'r deiet er gwell, a dal ati, yn dasg haws na'r disgwyl.



Un o Sir Gaerfyrddin ydy Angharad yn wreiddiol ond mae hi wedi ymgartrefu yn y Carneddi, Bethesda ers blyneddau. Yn ôl Angharad, er mwyn mabwysiadu arferion bwyta maethlon, dylem ystyried pa newidiadau bach y medrwn ni eu gwneud i'n harferion bwyta presennol, newidiadau sy'n cyd-fynd â'n ffordd ni o fyw. Gallwn, er enghraifft, dalu sylw i faint o brotin yr ydym yn ei fwyta, a chwilio am fathau gwahanol o brotin hefyd. Mae bwyta hadau a chnau yn ffordd mor hawdd o wneud hyn, meddai Angharad, e.e. rhoi ychydig ohonynt ar ben iogwrt neu wŷy wedi ei 'sgramblo'. Mae llawer gwell siawns y byddwn yn parhau â'r arferion da os ydyn nhw'n rhai syml fel hyn.

Mae Angharad wedi paratoi nifer o ryseitiau ar gyfer cyfres Tŷ Ffit a gallwch fynd i'r wefan i chwilio amdanynt. Wyddoch chi ddim, efallai y byddan nhw'n eich ysgogi i addunedu o'r newydd i fwyta'n iachach ac yn fwy maethlon. Dyma i chi flas ar ddau o'r ryseitiau...

## CAWL BETYS AC AFAL

Mae'r cawl yma mor flasus ac yn donic i'r iau hefo'r betys, afal a'r stoc cartref! Cofiwch weini hefo ffynhonnell o brotein i sicrhau eich bod yn teimlo'n llawn ar ôl y pryd: - cyw iâr wedi'i goginio, corgimychiaid, tofu, darnau ffeta, iogwrt, hadau neu gnau wedi'u tostio, perlysiâu ffres, dail berwr (cress) neu ferwr dŵr.

GWNEUD: digon i 4

1 llwy fwrdd o olew cnau coco neu olew olewydd

1 llwy de cwmin

1 nionyn, wedi'i dorri

¼ bresych coch, wedi'i dorri

2 afal, wedi'u sleisio a'u torri

4 betys (rhai amrwd wedi gratio neu ddarnau o rai wedi'u coginio ymlaen llaw - ond nid rhai mewn finegr)

750ml stoc (stoc esgryn cartref yn ddelfrydol neu stoc wedi'i brynu fel arall)

1 seren anis

Halen môr a phupur

Finegr seidr afal

Cynheswch yr olew a ffrwch y nionyn am ychydig funudau nes ei fod yn feddal. Ychwanegwch y cwmin am funud i ryddhau'r arogl! Yna ychwanegwch y bresych, yr afal a'r betys a'u troi am 5 munud. Ychwanegwch y stoc, y seren anis a dod a fo i'r berw. Trowch y gwres i lawr a'i fudferwi am 10 munud. Tynnwch y seren anis a defnyddio blender i'w falu'n llyfn. Ychwanegwch halen a phupur.



I'w weini - ychwanegwch ychydig o finegr seidr afal, y protein o'ch dewis a rhai cnau/hadau wedi'u tostio ar gyfer ychydig o 'crunch' a rhai llysiâu gwyrdd ar ffurf perlysiâu ffres neu roced/berwr dŵr.

## BARA FFLAT

GWNEUD: 4

250 g iogwrt Groegaid (0% neu 5%)

250g o flawd hunan-godi

Halen

Rhowch yr iogwrt, y blawd a'r halen mewn powlen gymysgu fawr a'u cyfuno (gyda'ch dwylo!). Pan fydd y cyfan wedi'i gyfuno ac yn debyg i does rhannwch yn bedwar tamaid. Rowliwch bob un (gallwch ddefnyddio rholbren, pot jam neu eich dwylo - does dim rhaid iddynt fod yn gylchoedd perffaith!).

Rhowch badell nad yw'n glynu ar wres canolig-uchel. Nid oes angen olew. Pan fydd yn teimlo'n ddigon poeth rhowch y bara yn y badell. Mae angen coginio am 3-4 munud bob ochr nes eu bod wedi crasu a lliw da arnyn nhw. Rhybudd - unwaith i chi ddechrau gwneud y rhain, fyddwch chi ddim yn gallu stopio!



**JR** SGAFFALDIAU Cyf. **JR**  
SCAFFOLDING Ltd.

**YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NE**  
**ebost: sales@jrscaffolding.co.uk**

**Ffôn/Ffacs: 01248 601754**  
**07770 568743 (symudol)**



# CHWILAIR



## Deiseb Heddwch Menywod Cymru

A	A	I	O	L	A	R	E	E	S	H	U	G	H	E	S	W	F	H	R
I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I
M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A
U	S	E	N	O	J	E	N	A	J	M	A	I	R	I	M	Q	U	S	S
O	S	M	A	I	L	L	I	W	T	E	R	A	G	R	A	M	A	G	F
E	R	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	R	R	R	I
H	A	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R	H	C	A	A	Q	S	H
S	M	Y	F	A	N	W	Y	D	A	V	I	E	S	H	C	W	E	I	H
A	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	P	T	O	E	T	C	Y	W	B
G	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	V	W	T	V	D	C	R	E	B
E	B	F	R	F	O	G	J	V	I	I	E	H	R	R	X	I	R	L	M
N	H	T	T	O	S	K	O	P	W	N	O	R	C	M	K	C	A	N	B
I	O	R	C	X	V	R	Y	H	S	M	T	M	R	E	F	Y	P	E	J
R	D	Z	H	B	C	W	O	S	A	C	R	A	I	X	N	I	N	L	L
E	X	J	J	M	B	W	T	S	E	X	M	D	X	K	F	U	E	L	P
H	S	H	T	I	F	F	I	R	G	N	N	A	Y	R	A	M	W	E	C
T	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	D	E	W
A	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	V	O	N	O
C	G	J	L	I	L	Y	R	O	B	E	R	T	S	P	W	P	L	A	G
S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	B	J	S

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW UNARDDDEG O FERCHED o Ward Gymunedol Llanllechid a arwyddodd Deiseb Heddwch Menywod Cymru yn 1923 i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 28 Chwefror. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais ataf, bydd atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion Chwilair Ionawr:** Bermo; Bont Gludo Casnewydd; Borth; Britannia; Hafren; Llangollen; Melin Coetmor; Minllyn; Monnow; Pont Fawr Dolgellau; Sir Fflint; Traphont Cefn Coed.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Rosemary Williams, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Carys Parry, Caerhun; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Davies, Tanygrafell.

**Enillydd Tachwedd oedd,** Judith Hughes, Wenallt, Llangoed. Sir Fôn.



## Y Saffrwm



Y Saffrwm

Dyma gyfnod blodau'r gwanwyn yn draddodiadol, ac mae pawb wedi hen sylwi nad ydy pethau ddim fel yr oeddynt. O ganlyniad i'r cynhesu byd-eang, mae'r hen drefn bellach wedi newid. Yn ein rhan ni o'r byd, y newidiadau amlycaf – hyd yma – yw'r glawogydd wedi trymhou, y gwyntoedd wedi cryfhau, a'r tymheredd mwynach. Fodd bynnag, nid oes patrwm pendant yn ôl y gwyddonwyr. Barn ddiweddar rhai arbenigwyr yw y gall y cynhesu byd-eang beri i wledydd Prydain oeri am gyfnod i'r fath raddau y bydd yr hinsawdd yma yn debyg i'r hyn ydyw yng ngogledd Norwy.

Gwelir sawl arwydd o'n cwmpas. Chawsom ni ddim rhew yn aros yn hir ers

tro, heb sôn am rew trwchus. Roedd hanner Llyn Ogwen wedi rhewi rai wythnosau'n ôl, ond tenau iawn oedd trwch yr haenen. Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi ar arwyddion yn eich gardd yn ystod sawl gaeaf bellach. Eira'n gaenen dros yr ardd un diwrnod, a'r diwrnod dilynol wedi iddo ddadmer, llygad y dydd yn gwenu'n yr haul.

Sylwyd hefyd ar y mynyddoedd. Pan fyddai eira'n aros am gyfnod go hir arnynt, efo rhew o dan y gaenen, byddai'r borfa wedi gwywo'n felyn wedi'r dadmer. Yn ystod y gaeafau diwethaf, pan fo'r eira'n aros ond am ychydig ddyddiau ar y tro, mae'r ddaear wedi dal i fod yn weddol las. Wedi'r dadmer, gwelir gwyrddni golau'r porfeydd uchel.

O ran y blodau, yr hen drefn dymhorol oedd dyfodiad cynnar a rheolaidd y lili wen fach ddechrau'r flwyddyn, yna'r saffrwm a'r cennin Pedr yn eu tro, a'r briallu yn eu dilyn yn ddiweddarach. Dyna'r patrwm yn fras, er ei fod yn amrywio o le i le yn ôl natur eu cynefin a'r hinsawdd ar y pryd. Yn wahanol i'r blodau eraill, mae'r saffrwm (crocus) â chryn amrywiaeth o ran lliw. Gall y blodau fod yn wyn, yn felyn, yn oren, yn goch, yn biws neu'n borffor, ac mae hynny'n ei wneud yn blanhigyn hynod ddeniadol a phoblogaidd. Ei werth addurniadol mewn gerddi oedd y prif reswm pam y daethpwyd â'r saffrwm i Ewrop o Dwrci yn yr 16g, a gellir cael gwahanol fathau ohono sy'n blodeuo yn yr hydref, y gaeaf neu'r gwanwyn.

Mae'n perthyn i deulu'r ellesgen (eiris), ac yn ogystal â'r amrywiaeth mewn lliwiau mae iddo briodweddau neilltuol eraill. Planhigyn sy'n tyfu'r isel ar y ddaear ydyw, efo oddeutu hanner ei goesyn yn y pridd. Mae ei flodau'n cau dros nos ac ar ddyddiau dwl, ac ar ôl bod yn ei flodau mae'n mynd i gysgu.



Y sbeis saffron sargol, y math cryfaf o Iran.

Mae'r enw 'saffrwm' yn hen iawn. Daw o'r gair 'saffron', ac yn ôl yr ieithyddion mae'n bosib bod y gair 'saffron' wedi dod o'r Hen Ffrangeg 'safran' ac yn wreiddiol o'r Berseg 'za'farān'. Sbeis yw saffron, a daw o stigma (rhan fenywaidd blodyn) y saffrwm sy'n blodeuo yn yr hydref. Iran yw pennaf gynhyrchydd saffron, a chan fod galw mawr amdano i roi blas a lliw i fwyd, mae'r sbeis hwn gyda'r drytaf yn y byd.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG [ieuanwyn01@gmail.com](mailto:ieuanwyn01@gmail.com) 01248 600297.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Cawsom dymor llwyddiannus fel clwb unwaith eto gan groesawu sawl wyneb cyfarwydd yn ôl atom fis Medi, yn ogystal â wynebau newydd. Digwyddiad cynta'r tymor oedd yr helpa drysor ceir oedd yn gorffen yn y Clwb Rygbi lle cawsom banded a dod i nabod ein haelodau newydd. Cawsom y fraint o groesawu tri gwestai yn ystod y tymor. Y cyntaf oedd Llio Morris, Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio oedd wedi dod atom i roi cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ffermwyr. Cafwyd noson ddiddorol arall yng nghwmni Nigel Beidas fu'n ein haddysgu a'n diddori ynglŷn â hanes corlannau mynyddoedd Eryri. Daeth PSCO Iwan Owen atom hefyd i sgwrsio am ei waith a rhannu rhai o'i brofiadau yn gweithio fel heddwys yn delio efo achosion cefn gwlad. Diolch iddynt i gyd.

Cyn i ni droi, roedd hi'n amser Ffair Aeaf y sir unwaith eto, a bu aelodau'r clwb yn prysur baratoi ar gyfer y barnu stoc, gwaith cartref a chystadlaethau eraill. Diolch i deulu Tŷ Newydd am ganiatáu i'r ffair gael ei chynnal yno. Cawsom Ffair Aeaf llwyddiannus iawn eto eleni a'r clwb yn gorffen yn y trydydd safle. Llongyfarchiadau i Iwan Harper a Cian Rhys am fod yn llwyddiannus yn cael cynrychioli Ffederasiwn Eryri mewn cystadlaethau barnu stoc.

Gorffennwyd y tymor gyda gwledd o ginio Nadolig blasus yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Hoffem ddiolch o galon i Glwb Rygbi



Rhai o'r aelodau'r Clwb ar ddiwrnod y Ffair Aeaf.

Bethesda ac i Wayne Eccles am ei groeso cynnes, fel bob tro. Cafodd pawb amser da hefyd ym mharti blwyddyn newydd Ffermwyr Ifanc Eryri yn yr Eagles, Llanrwst ym mis Ionawr.

Diolch i'r aelodau a'r arweinyddion am dymor llewyrchus. Cawn edrych ymlaen rŵan am dymor yr un mor brysur yn y Gwanwyn.

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)

**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)

**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

### Penblwydd arbennig

Penblwydd hapus i Gwyneth Williams, 2 Cerrig Llwydion, a ddatthlodd ei phen-blwydd yn 80 ar 12 Ionawr. Mae'r teulu i gyd, ffrindiau a chymdogion yn anfon eu cofion atoch.

### Yn yr Ysbyty

Anfonwn ein dymuniad gorau i Llywela O'Brien, Bangor (gynt o Dregarth) sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

### Cangen Tregarth o Ferched y Wawr

Mae dyddiad cyfarfod y gangen wedi symud o 3 Chwefror i Nos Lun 10 Chwefror pan ddaw'r awdures Mared Lewis atom i Festri Capel Shiloh Newydd i sgwrsio ar y testun 'Stori Awdures'. Mae croeso cynnes iawn i unrhyw un a hoffai ymuno gyda ni.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi Nos Lun 3 Mawrth. Am fwy o fanylion am y dathliad cysylltwch gyda Carol Jones 01248 601328 neu Christine Morris Jones 01248 600580.

## Capel Shiloh Newydd

Bydd pob oedfa yn cychwyn am 5 o'r gloch.

18 Chwefror – Dafydd Charles Thomas, Llanfairpwll

23 Chwefror – Richard Owen Jones, Gaerwen

2 Mawrth – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

16 Mawrth – Philip Barnett, Swydd Efrog

23 Mawrth – Ellie Jones, Coed y Parc, Bethesda

Mae un o aelodau Shiloh Newydd wedi cael llawdriniaeth ar ei llygaid yn ystod Mis Ionawr, sef Iris Harper, Tŷ Newydd, Llandygai. Gwellhad llwyr a buan Iris.

### Drws Agored

Ydi, mae Drws Agored ar agor yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Cewch baned a sgwrs, cynhesrwydd a chwmni ac os byddwch yn lwcus bydd darn o deisen ar gael hefyd. Cawsom gyfle i ddathlu un sy'n selog iawn ar fore Gwener ym Mis Ionawr, sef Gwyneth

Williams, Cerrig Llwydion. Pawb wedi mwynhau'r deisen penblwydd! Llongyfarchiadau Gwyneth.

### Diolch

Hoffai Gwyneth ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion a chyfarchion ddaeth iddi ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch am fod mor garedig.

### Clustogau Newydd

Cawsom glustogau newydd sbon yn y Set Fawr ac ar y grisiau isel o flaen y Set Fawr ychydig Suliau cyn y Dolig ac maent yn werth eu gweld ac mor gyfforddus. Gwnaed y clustogau newydd gan Isaac Griffiths, Llanllechid ac rydym yn ddiolchgar iddo am y gwaith ardderchog. Yn ôl rhai aelodau hynaf y capel roedd y clustogau gwreiddiol yn bodoli ers dros nawdeg mlynedd. Felly roedd gwir angen rhai newydd yn Shiloh. Prynwyd y rhain gyda'r casgliad hael iawn a dderbyniwyd adeg arddangosfa 'r Beibl Gwau yr Haf diwethaf. Rydym yn ddiolchgar iawn i Isaac Griffiths am ei waith arbennig o gelfydd yn eu gwnïo.

## YSGOL TREGARTH

Braf oedd croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig a chlywed eu hanesion.

### Pêl-rwyd

Aeth tîm pêl-rwyd ysgol Tregarth draw i ganolfan Brailsford i gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r plant wedi bod yn ymarfer eu sgiliau yn ystod gwersi ymarfer

corff yn ystod yr hanner tymor diwethaf, a chawsom y cyfle i ddefnyddio'r hyn maent wedi ei ddysgu mewn gemau cystadleuol yn erbyn ysgolion gwahanol Eryri. Ennill 2, dwy gêm gyfartal a cholli un oedd eu hanes. Rydym fel ysgol yn falch iawn o'r cynnydd maent wedi gwneud ac am gynrychioli'r ysgol mor dda ar y diwrnod. Da iawn chi genod!



## Mynydd Llandygai

### Er Cof

Yn dawel ar Ddydd San Steffan yng Nghanolfan Canser Clatterbridge, bu farw Evelyn Lupson, ne Fitzpatrick, yng nghwmni cariadus ei theulu. Magwyd Evelyn yn Llwybr Main, yn ferch i Paddy a Maggie Fitzpatrick, ac yn chwaer fach i Bobby Taylor, ddaeth i'r Mynydd o Lerpwl yn efaciwi, ac a arhosodd ym Methesda weddill ei oes, gan briodi Mair a magu teulu.

Tra yn y coleg ym Mangor, cyfarfu Evelyn â Peter Lupson, myfyriwr yn y Brifysgol, a phriodwyd y ddau yng Nghapel Peniel fis Awst 1969. Bu'r ddau yn byw yn Lerpwl a Harrogate cyn setlo yn Pensby, ar y Wirral, a chael bywyd hapus iawn gyda'u plant Karen a Mike, a chroesawu pedwar o wyrion i'r teulu, gan fwynhau nifer fawr o wyliau teuluol blynyddol yng Nghricieth.

Roedd Evelyn yn Gymraes i'r carn, wedi annog Peter,

a aned yn Vienna a'i iaith gyntaf yn Almaeneg, i ddysgu Cymraeg. Roedd yn derbyn y Llais ar hyd ei hoes, ac yn edrych ymlaen bob mis i weld hanes yr ardal.

Yn anffodus daeth cancr i'w rhan yn 2022 a dioddefodd sawl cylch o driniaeth frwnt dros y misoedd canlynol, ond trwy'r cwbl roedd Evelyn yn siriol a phositif ac yn ofalus iawn o'i theulu.

Daeth nifer fawr o deulu a ffrindiau i'r angladd, ym mynwent Pensby ac yn eglwys Longcroft, Barnston, ac yn eu mysg merched Bobby, sef Heather, Diane ac Elaine, yn cynrychioli teulu Bethesda. A derbyniwyd y gwasanaeth gan nifer ar zoom ymhell ac agos, gan gynnwys teulu Peter yn Vienna. Cydymdeimlwn yn ddiffuant a Peter, Karen a George, Mike a Lisa a'u teuluoedd, ar golli gwraig, Mam a Nain gariadus dros ben. Bydd hiraeth mawr amdani.

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459) henbarc13@gmail.com

## Clwb Hanes Rachub

Daeth criw da iawn draw i'r Clwb Criced i wrando ar Mr Dafydd Fôn Williams yn sgwrsio am yr 'Hen Ddaliadau'. Byrdwn ei sgwrs oedd dangos nad peth newydd ydy cwyn pobl am golli enwau traddodiadol ardaloedd, llwybrau a ffermydd y fro, gan fod hynny hefyd yn digwydd ddwy ganrif yn ôl.

Canolbwyntiodd ar dair ardal benodedig, sef ardaloedd Chwarel y Penrhyn (y ddwy ochr i'r afon) ac ardal Talybont ac Aberogwen. Gyda chymorth sleidiau eglur dangoswyd sut a pham y collwyd cynifer o adeiladau ac enwau gwych.

Effeithiodd nifer o ffactorau ar y newidiadau yn yr ardal. Wrth gwrs, roedd twf Chwarel y Penrhyn wedi achosi dymchwel nifer o strydoedd ac adeiladau ar ochr Llandygai o'r Afon Ogwen - rhai wedi eu claddu dan y tomennydd llechi, ac eraill wedi eu dymchwel er mwyn creu a sythu ffyrdd. Mae Llyn Meurig (8 erw) o dan y llechi, yn ogystal â'r Eglwys St. Anne wreiddiol. Bryn Llys oedd ymhlith y tai olaf i gael eu claddu a chafodd Fferm Coed y Parc (150 erw) ei phrynu gan reolwr y chwarel ar y pryd, ac yntau'n adeiladu tŷ mawr crand iddo'i hun ar y tir, sef Bryn Derwen.

Ym 1818 daeth Telford gyda'i A5 drwy Fethesda ac o ystyried twf y chwarel roedd yn rhaid adeiladu mwy o dai, siopau a phob math o adeiladau eraill. Ffermydd a thir amaethyddol oedd yn gorfod gwneud lle i'r rhain, a chollwyd nifer o'n henwau lleol oherwydd hynny, er bod ambell enw wedi goroesi e.e. Pen y Bryn a Cilfodan.

Bu newidiadau gwahanol iawn yn ardal Talybont ac Aberogwen pan hawliodd Stad y Penrhyn y tir, codi 'castell' a chreu parc 730 erw. Amgylchynwyd yr holl eiddo gan waliau uchel a thrwchus - i atal y werin bobl rhag gweld beth oedd yn digwydd! Diflannu fy hanes ffermydd bychain a'u henwau gwych

fel 'Maes y Penbwl', 'Tyddyn Sachre', 'Pwll Budr', 'Gwern Porchell', 'Nant Gwreiddiog' a 'Thyddyn Ceiliog'. Diolch yn fawr Dei Fôn, am rannu'r gwaith ymchwil trwyadl a difyr hefo ni!  
Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Chwefror 26ain, pan fydd Dr. John Llywelyn Williams yn trafod 'Merched y Streic'.

## Dymuno gwellhad

Gwellhad buan i Tom Owen Williams (Tom Bach Hen Barc) yn dilyn llawdriniaeth ar ei glust yn ddiweddar. Dymuniadau gorau gan y teulu i gyd.

## Mewn cydymdeimlad

Wedi gwaeledd hir ac yntau ar drothwy ei ben-blwydd yn 92 oed bu farw Eirwyn Pritchard, 1 Bron Arfon, yn Ysbyty Gwynedd yn ystod wythnos gyntaf y flwyddyn newydd. Ganwyd Eirwyn yn Bryn Hall cyn i'r teulu symud i fyw i bentref Llanllechid. Bu'n gweithio ar ffermydd yn yr ardal am gyfnod, hynny cyn priodi gyda Joan, merch o Fraichmelyn. Ganwyd dau o blant iddynt a bu'r cwpl yn weithgar dros y blynyddoedd yn sicrhau bywyd hapus iddynt - roedd teulu yn bwysig iawn i Eirwyn a Joan. Bu Eirwyn yn gweithio yn y chwarel ac ar nifer gynlluniau adeiladu. Treuliodd y teulu gyfnod yn Birmingham cyn symud yn ôl i ogledd Cymru lle bu Eirwyn yn gweithio fel dreifar bws.

Cafwyd gwasanaeth angladd arbennig yn yr amlogfa dan ofal y Parch Sara Roberts, Glanogwen. Mae Joan, Denise a'r teulu yn dymuno diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt gan gyfeillion a chymdogion yn ystod y cyfnod trist hwn. Maent hefyd am ddiolch i Gareth Williams am ei waith trefnu pwylllog a thrylwyr, ac i'r Parch Sara Roberts am ei harweiniad hithau dros y cyfnod, yn y cartref ac yn ystod y gwasanaeth.

## Ymadael

Mae dwy o genod yr ardal wedi gadael y pentref a sefydlu cartrefi newydd. Pob dymuniad da i Abbie Edwards sydd wedi ymgartrefu ym mhentref Talybont a Llinos Evans sydd wedi symud i Erw Las i fyw. Dymuniadau gorau i'r ddwy yn eu cartrefi newydd.

## Capel Carmel

Gwasanaethau am 5 o'r gloch  
23 Chwefror – Parch. J. Ronald Williams.  
2 Mawrth – Parch. D. John Pritchard.  
9 Mawrth – Parch. Peter Cutts.  
16 Mawrth – Parch. Iwan Llewelyn Jones.

Ysgol Sul am 10.30yb

Clwb Dwylo Pysur Nos Wener am 6.30yb  
CROESO CYNNES I BAWB

Bu'r bobl ifanc yn trafod y gair 'Cariad' yng Nghlwb Dwylo Pysur yn ystod mis Ionawr. Roedd clywed am gasineb a chreulondeb



Charmaine a Ffion gyda'r gwaith llaw ar y thema 'Cariad'

mewn sawl rhan o'r byd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddigalon. Dyma droi at y Testament Newydd i ddarllen beth oedd Iesu Grist yn ei ddweud wrthym: 'Carwch eich gilydd', 'Carwch eich gelynyon'. Aethant ati i wneud gwaith llaw deniadol gan gopïo rhai o adnodau'r Beibl sy'n cynnwys y gair 'Cariad'.

## Llongyfarchiadau

Rydym yn hynod falch o adrodd am lwyddiant diweddaraf Gwydion Rhys, Gwenlais, Bron Arfon ar gael ei ddewis yn un o 8 o gyfansoddwyr dawnus cystadleuaeth Cyfansoddi: Cymru 2025. Mae'r gystadleuaeth yn darparu cyfle euraid i gyfansoddwyr i gael adborth arbenigol gan gerddorion proffesiynol yn ogystal â chael eu mentora gan gyfansoddwyr ac arweinyddion o'r radd flaenaf. Eleni mae'r prosiect yn cael ei arwain gan yr Arweinydd Jac Van Steen, a'r Cyfansoddwr Cysylltiedig Gavin Higgins. Nod y prosiect blynyddol a'r cyngerdd sy'n uchafbwynt iddo ydy cefnogi'r gwaith o ddatblygu a thynnu sylw at dalent cyfansoddi o Gymru, ac yng Nghymru. Cynhelir gweithdai a chyngerdd arbennig o'r gweithiau cerddorol yn Neuadd Hoddinott y BBC ym Mae Caerdydd, 24-26 Mawrth - mae tocynnau ar gael ar gyfer y cyngerdd ar wefan Canolfan y Mileniwm. Pob hwyl i ti Gwydion, a mwynha'r wefr o glywed dy waith yn dod yn fyw trwy ddwylo cerddorion Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Deallwn hefyd bod Gwydion newydd gael ei dderbyn i astudio gradd Meistr mewn Cyfansoddi yn y Coleg Cerdd [Brenhinol] yn Llundain ym mis Medi, yr un coleg lle mae'n astudio ar hyn o bryd.

## CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID

Nos Fercher, Chwefror 26ain,  
2025 am 7 o'r gloch yn y  
Clwb Criced

**Dr. John Llywelyn Williams**

fydd yn trafod  
'Merched y Streic'

**CROESO CYNNES!**

## Gareth Williams

TREFNYDD ANGLADDAU

Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda



600763 neu 07708 008051  
GWASANAETH DYDD A NOS

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk  
(07443 047642)

**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,  
Bethesda (601902)

### Llwyddiant

Ddechrau'r flwyddyn llwyddodd Jason Lewis i gael ei benodi'n Brif Weithredwr dros saith o golegau ardal yn ne Lloegr, gan weithio o Gaergrawnt. Mae Jason yn hogyn o Fethesda, ac yn fab i Glenys Lewis, 14 Abercaseg. Llongyfarchiadau mawr iddo a phob dymuniad da i'r dyfodol.

### Diolch

Dymuna Doris Shaw, o Arafa Don, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90. Diolch yn fawr i chi i gyd.

### Ysbyty

Bu'r rhai a enwir isod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth yn ddiweddar. Da deall eu bod

gartref erbyn hyn, ac yn gwella. Cofion cynnes atoch: Mr Frank Thomas, Llety'r Adar; Mr Stephen Jones, Pen-y-Bryn; Mr Gwyn Williams, Carneddi a Mrs. Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas.

### Geni

Llongyfarchiadau i Thomas ac Eleanor, 2 Rhos Penybryn, ar enedigaeth hogyn bach, sef Idris, ar 5ed Ionawr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

### Penblwyddi

Bu sawl un yn dathlu penblwydd arbennig ym mis Ionawr. Llongyfarchiadau a chyfarchion penblwydd hapus hwyr i chi:-

3 Ionawr - Doris Shaw, Araf Don yn 90 oed

7 Ionawr - Arwel Hughes, Garneddwen yn 70 oed

14 Ionawr - Bob Williams, Maes y Garnedd yn 90 oed

### Mewn Cydymdeimlad

Ar 24 Rhagfyr yn ei gartref, 22 Glan Ffrydlas, bu farw Neville Trevor Morgan yn 73 oed.

Mab i'r diweddar John a Mabel Morgan, a brawd annwyl Len a'r diweddar Brenda, Violet, Audrey, Royston a Kevin, ac yn ewythr

hoffus. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 8 Ionawr, yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Eglwys Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchg. Sara Roberts. Cydymdeimlwn â Len a'r teulu i gyd.

Ar 17 Ionawr yn ei gartref, 61 Stryd Fawr, bu farw Richard Dilwyn Griffiths (Brains) yn 66 oed. Mab i'r diweddar William a Mair Griffiths, Bryntirion, brawd bach Brenda yn Neiniolen; Ann ym Maes y Garnedd, a Derek yn Rhos y Coed. Roedd yn frawd yng nghyfraith i Sylvia a'r diweddar Wil ac Islwyn, ac yn ewythr caredig. Cynhaliwyd ei angladd brynhawn Llun 10 Chwefror gyda gwasanaeth yn Amlogsga Bangor. Cydymdeimlwn â chi oll fel teulu.

Bu sawl teulu arall mewn profedigaeth yn ystod mis Ionawr ac anfonwn ein cydymdeimlad atoch. Ann Griffiths wedi colli modryb ym Mhenrhos, Bangor, sef Mrs. Margaret Elizabeth Hall (Anti Betty gynt o Madryn, Felin Hen). Dave a Nicola, Sŵn y Nant, collodd Dave ei chwaer, sef Ann Evans o Fangor. Cydymdeimlwn hefyd a theulu'r diweddar Mr Arfon Hughes Evans, Bangor a fu'n bennaeth Ysgol Pen-y-Bryn.

## Eglwys Crist, Glanogwen

### Amlenni Rhodd

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol - mae'r cyfraniadau yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

### Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb syn dioddef mewn unrhyw fodd. Anfonwn ein cofion yn arbennig at ein Ficer, y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd, sydd ar gyfnod o salwch ers rhai wythnosau, gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda iddo ef ac Elizabeth, a gwell iechyd yn 2025.

### Gwasanaethau Eglwys Crist

Pob Bore Mercher am 10.30 cynhelir Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Hyd nes y Pasg cynhelir gwasanaethau am

11 y bore ar Sul cyntaf a trydydd Sul y mis yn unig. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

### Manylion cyswilt

Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967 652981. Mae'n diolch fel eglwysi Bro Ogwen yn ddiffuant iawn i Sara, sy'n gweithio'n galed iawn i lenwi pob bwch yn ystod anhwylder ein ficer.

### Dyfodol yr Eglwys

Mae cronfa'r Apêl yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol i'r gronfa Gofundme. Neu beth am feddwl am drefnu rhyw achlysur i godi arian - mae pob cyfraniad yn help. Diolch o galon i bawb,

### Clwb Cant Glanogwen

Ennilydd mis Rhagfyr  
1af Rupert Bath  
2il Betty Williams

Ennilydd mis Ionawr  
1af Brenda Baston  
2il Mared Roberts

## Dydd Mawrth Ynyd Te Bach Crempog

Mynediad: £5  
Plant am ddim

Raffl Pâsg & Tombola



Eglwys Glanogwen  
Mawrth 4/3/25 @3:00pm

## Gorsafoedd y Groes trwy'r Grawys

Croeso i bawb ymuno

@ Eglwys Glanogwen

Nos Fawrth @ 7pm:

11/3/25.

18/3/25

25/3/25

1/4/25

8/4/25

15/4/25

Dilyn yn ol traed yr Iesu tua Calfari



Llun 1af & 3ydd bob mis  
1-3pm

Canolfan Gorffwysfan,  
Bethesda LL57 3AR

Gwanwyn 2025  
IONAWR 13 & 27  
CHWEFROR 3 & 17  
MAWRTH 3 & 17  
EBRILL 7 & 21



Gofod ddiogel i rannu  
a chefnogi ein gilydd

## CAFFI COLLED

grwp galar gymunedol

Bethesda



cysylltwch:

Caplan Bro

Parch Sara Roberts:

sararoberts@churchinwales.org.uk

mob: 07967652981

FB: Caffi Colled



# Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor nos Iau, 30 Ionawr yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom.

## Cysgodfan Bws Maes Bleddyn

Yn dilyn edrych ar wahanol opsiynau, nodwyd nad oedd yn bosib gosod cysgodfan ger yr arhosfan oherwydd bod y palmant yn rhy gul. Nodwyd efallai bod bosib gosod lloches ger mynediad y stad, a chytunwyd i'r Clerc fynd ymlaen i geisio cael caniatâd gan Gyngor Gwynedd, ac i edrych am brisiau archebu a gosod.

## Clwb Chwaraeon Tregarth

Derbyniwyd gohebiaeth gan grŵp cymunedol newydd Clwb Chwaraeon Tregarth ynglŷn â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer y cae pêl droed yn Nhregarth. Mae'r grŵp yn bwriadu creu caeau pêl droed pwrpasol ar gyfer timau plant Dyffryn Ogwen. Nid yw'r

cae presennol yn cael llawer o ddefnydd oherwydd ei fod yn anwastad, yn wlyb ac mewn cyflwr gwael iawn. Nodwyd fod diffyg adnoddau chwaraeon yn Nyffryn Ogwen ac felly mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno mewn egwyddor i brydlesu'r cae am gyfnod o 25 mlynedd. Penderfynwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r cynlluniau ac yn cyfrannu £500 tuag at y prosiect.

## Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc

Derbyniwyd copi o ohebiaeth gan y Cyng. Huw Jones at Cyng. Paul Rowlinson a'r Cyng. Einir Williams am gyflwr presennol y ffordd. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn codi pryderon y Cyngor eto gyda Chyngor Gwynedd.

## Goleuadau Nadolig

Penderfynwyd edrych ar opsiynau eraill ar gyfer darparu goleuadau Nadolig y flwyddyn nesaf oherwydd siom y Cyngor gyda safon gosod a thynnu'r goleuadau gan Gyngor Gwynedd eleni. Bydd cyfarfod cyffredinol yn cael ei gynnal ar yr 27 Chwefror 2025 am 19.00 yng Nghanolfan Cefnfaes.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

## Newid Cartref

Mae Mr Robin Jones, 14 Pentref, Llandygái, wedi symud i fyw i Blas Ogwen ers dydd Llun, Ionawr 27. Deallwn ei fod wedi byw yn ei gartref yn Llandygái ers oddeutu 70 mlynedd. Bydd Mr Jones yn dathlu ei benblwydd yn 101 mlwydd oed ym mis Mawrth. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn setlo yn gyfforddus a hapus yn eich cartref newydd.

## Eglwys Sant Tegai

### Raffl Santes Dwynwen

Erbyn i chi dderbyn Llais Ogwan mis Chwefror byddwn yn gwybod pwy oedd enillydd y raffl 'champagne' Santes Dwynwen a Sant Ffolant! Tynnwyd y tocyn buddugol yn y gwasanaeth ar 9 Chwefror ac roedd yr elw'n mynd i Gronfa Atgyweirio'r Eglwys.

### Gwasanaethau

Dyddiau Sul, ar ail a phedwerydd Sul y mis am 11.00. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys am fanylion.

Dyddiau Mercher ar ail a phedwerydd Mercher yn y mis am 10.30, gyda phaned a sgwrs i ddilyn. Os nad ydych yn dymuno mynychu'r gwasanaeth mae croeso i chi ymuno â ni am y baned a'r sgwrs.

### Manylion Cyswllt

Yn ystod salwch y Parch Ddr Gareth Lloyd gofynnwn i chi gysylltu gyda'r Hybarch David Parry Archddiacon Bangor sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen davidparry@churchinwales.org.uk

## Yr Eglwys Unedig

### Oedfaon

Yn ystod y mis, cawsom wasanaethau bendithiol dros ben, gan gynnwys oedfa Gymun hyfryd iawn o dan arweiniad ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths.

Cawsom hefyd y fraint o gwmni'r Parchedig Iwan Llywelyn Jones mewn oedfa wefreiddiol a oedd yn llawn argyhoeddiad. Diolch o galon i'r ddau ohonynt.



### Y Gymdeithas

Er gwaetha'r rhew a'r oerni, daeth dwsin o aelodau'r Gymdeithas i Festri Capel Jerusalem i wrando ar sgwrs ddifyr dros ben gan Dr. Dafydd Roberts, a ddaeth atom ar fyr rybudd. Mae Dafydd yn barod ei gymwynas bob amser. Ei destun syml oedd 'Capel Bethel', a'r dasg i'r gynulleidfa oedd dyfalu ym mha ddinas, y tu allan i Gymru, y'i sefydlwyd. Mae nifer o gapeli dros y ffin, a thramor, yn dwyn yr enw 'Bethel', ond eglwys Gymraeg Dulyn oedd o dan sylw heno.

Clywsom hanesion lliwgar am wahanol gyfnodau yn hanes yr Achos, ac am rai

o'r cymeriadau oedd yn gysylltiedig ag ef. Hawdd oedd dychmygu'r bwrlwm o gwmpas y Capel bach, wrth i longwyr o Gaergybi, milwyr, myfyrwyr, nyrsys a gweithwyr eraill lifo drwy'r drysau i gefnogi'r Oedfaon Cymraeg ar y Sul. Bu cynrychiolwyr o bum enwad yn addoli'n heddychlon o dan yr un to, a hynny mewn gwlad lle 'roedd y mwyafrif o'r boblogaeth yn Babyddion, a llawer yn Genedlaetholwyr pybyr.

Adeiladwyd y capel yn 1838 ac union gan mlynedd yn ddiweddarach, oherwydd gostyngiad sylweddol yn nifer yr addolwyr, fe ddaeth yr Achos i ben

Diolchodd Neville, y Cadeirydd, i Dafydd am sgwrs wirioneddol ddiddorol.

Cyn ei throi hi am adref, cawsom brofi bara brith blasus Ceri a phaned boeth. Mae Luned wedi cynnig gofalu am y baned y tro nesaf. Gwyddwn y caiff gymorth parod gan rai o'r aelodau eraill.

### Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau am flwyddyn newydd ddedydd at y rhai sydd yn methu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd.

### Cyhoeddiadau'r Sul am 10 y bore oni nodir yn wahanol

23 Chwefror – Y Parchedig Olaf Davies  
2 Mawrth – Ms Karen Owen  
9 Mawrth – Y Gweinidog  
16 Mawrth – Mr Richard Morris Jones  
23 Mawrth – Y Parchedig Anna Jane Evans (5)

Cofiwch y bydd pob un o'r oedfaon yma ar gael yn fyw ar y ffôn fel arfer.



Dilynwch Llais Ogwan ar X  
**@Llais\_Ogwan**

# DATHLU DARLLEN

- 6 MAWRTH 2025

DIWRNOD Y  
**LLYFR**  
WORLD  
**BOOK**  
**DAY**

## BARGEN AM BUNT

Beth gewch chi am £1 y dyddiau hyn? Wel dyma i chi syniad. Rhwng dau glawr 'Gwyrdd Ein Byd' cewch fynd am dro hefo'r naturiaethwr Duncan Brown i ddarganfod degau o ffeithiau difyr am fywyd gwylt Cymru. Oeddech chi'n gwybod bod yna fforestydd glaw yng Nghymru, a physgod hynafol ac adar sy'n nythu mewn tyllau cwingod? O'r môr i'r mynydd ac o'r trefi i'r ffermydd, mae rhyfeddodau o'n cwmpas ym mhob man ac mae Duncan yn son am y pethau bychain y gallwn ni i gyd eu gwneud i'w diogelu.

Mae gwledd i'r llygaid ar bob tudalen o 'Gwyrdd Ein Byd' hefyd, diolch i ddarluniau cain Helen Flook sy'n byw yn Abergwyngregyn. Ganed Helen yng ngogledd Cymru a bu'n archeolegydd am 30 mlynedd cyn symud i fyw i Ganada yn 1995. Yno penderfynodd droi ei llaw at ddarlunio. Dychwelodd i Gymru i fyw ugain mlynedd yn ôl ac erbyn hyn mae hi wedi darlunio dros gant o lyfrau i gyhoeddwyr ledled y byd.



Gobeithio bydd Diwrnod y Llyfr eleni yn eich ysgogi i gefnogi ein siop lyfrau leol, Siop Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda. Mae modd anfon neges ymlaen llaw i archebu llyfr hefyd trwy ffonio 01248 208485 neu anfon e-bost [siop@ogwen.org](mailto:siop@ogwen.org) (<mailto:siop@ogwen.org>) Pan fydd eich archeb wedi cyrraedd y Siop ymhen rhyw wythnos cewch neges yn eich atgoffa i'w gasglu.

**Neges i'r plant - defnyddiwch eich taleb £1 i gael llyfr am ddim!**

Rhai o'r llyfrau eraill fydd ar gael o Siop Ogwen, i unrhyw un, ond yn arbennig i blant ddefnyddio'r talebau fyddant wedi gael yn yr ysgol. Bydd ambell lyfr Saesneg ar gael am £1 yn y siop hefyd:



Ha Ha Cnech!, Jôcs Twp a Llundia Twpach



Na, Nel! Un Tro...



Cyfres Cyw:  
Darllen gyda Cyw

**Oriau agor Siop Ogwen ar hyn o bryd ydy:**

Dydd Llun	10 tan 4
Dydd Iau	10 tan 4
Dydd Gwener	10 tan 5
Dydd Sadwrn	10 tan 3

Siop Ogwen

Llawer o nwyddau gwahanol gan grefftwyr lleol yn y siop. Hefyd - Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.

- ♥ Llyfrau Cymraeg
- ♥ Artistaid Lleol
- ♥ Gemwaith

01248 208 485  
[siop@ogwen.org](mailto:siop@ogwen.org)

Cysylltwch i archebu neu gael gwybodaeth am nwyddau sydd ar werth



# Llyfrau sydd wedi diddori rhai o drigolion Dyffryn Ogwen yn ddiweddar

## Lloer Davies, Llanllechid MWY O HELYNT

### Pam darllen y llyfr yma?

Ro'n i wedi mwynhau darllen y nofel '#Helynt' gan yr un awdur, am anturiaethau Rachel sy'n 'goth' o Rhyl a'r helynt oedd hi yn ddo drwy'r amser. Felly ro'n i'n falch bod yna stori arall amdani.

### Beth wnaethoch chi fwynhau am y llyfr?

Mae'r llyfr mor hawdd i'w ddarllen ac mae'n stori dda. Dwi'n hoffi cymeriad Rachel sydd rŵan yn y coleg. Da ni'n cychwyn meddwl bod pethau'n mynd yn dda iddi nes iddi ddechra cael syniada gwirion a ffeindio'i hun mewn helynt eto - felly dydi ddim wedi callio fawr ddim!

Mwy o Helynt, Rebecca Roberts, Gwasg Carreg Gwalch, 2023. Nofel i'r ardegau cynnar sy'n ddilyniant i '#Helynt', a enillodd wobrau Llyfr y Flwyddyn a categori uwchradd



Tir na n-Og yn 2021. Stori am y cymeriad Rachel Ross oedd yn y nofel gynta wedi llwyddo i greu bywyd newydd gyda'i mam a'i chwaer, a setlo mewn ysgol newydd, cyn i Jason a'i magodd gael ei ryddhau o'r carchar. Erbyn hyn mae'r teulu bach wedi gorfod gadael y Rhyl. Gadael eu bywydau a phopeth maen nhw'n ei adnabod a diflannu i rywle anhysbys.

## Luned Edwards, Braichmelyn YN ÔL I LEIFIOR


### Pam darllen y llyfr yma?

Doedd gen i ddim llyfr newydd acw ar y pryd a daeth yr awydd drostai i ail-ddarllen y clasur yma o nofel.

### Beth wnaethoch chi fwynhau am y llyfr?

Mae'n chwip o stori dda ac mae cyfnod yr 1950au o fewn cof i nifer o ddarllenwyr Llais Ogwan o'm cenhedlaeth i. Wrth ei hail-ddarllen cefais fy nharo cymaint mae pethau wedi newid er gwell i ferched heddiw. Er bod merched y nofel yn gymeriadau cryf a deallus maent wedi eu llyfftheirio gan arferion y cyfnod a disgwyladau'r Gymdeithas ohonynt. Saith degawd ers cyhoeddi'r nofel yn 1956 mae gwell cyfle i ferched gyflawni eu potensial, diolch i'r drefn.

Yn Ôl i Leifior, Islwyn Ffowc Elis, Gwasg Aberystwyth 1956, Gwasg Gomer 1999. Fe'i cyhoeddwyd fel dilyniant i 'Cysgod y Cryman'. Mae'r stori wedi ei lleoli yng nghanolbarth Cymru yn yr 1950au lle mae fferm gydweithredol Lleifior yn wynebu amser anodd. Mae'r nofel yn archwilio themâu hunaniaeth, perthyn, a'r cysylltiad rhwng y gorffennol a'r presennol. Mae'r nofel allan o brint ar hyn o bryd, cafodd ei hail-argraffu yn 1999 felly mae'n siŵr o fod ar gael yn y llyfrgell.



## Meirion Davies, Llanllechid SARN HELEN, A JOURNEY THROUGH WALES, PAST, PRESENT AND FUTURE


### Pam darllen y llyfr yma?

Roedd yn anrheg gan Meleri fy ngwraig felly roedd yn rhaid i mi ei ddarllen!

### Beth wnaethoch chi fwynhau am y llyfr?

Mae'n llyfr digon difyr ac mi ddysgais dipyn am y rhannau o Sarn Helen oedd yn gyfarwydd i mi yn ogystal â'r rhannau oedd yn fwy dieithr. Mae'n werth ei ddarllen os oes ganddo chi ddiddordeb yn y Sarn Helen. Dwi'n mwynhau darllen amrywiaeth o lyfrau ac yn aml mi fydd gen i 2 neu 3 llyfr ar eu hanner ar yr un pryd. Felly dwi hefyd ar hyn o bryd yn ail-ddarllen Seren Wen ar Gefndir Gwyn gan Robin Llywelyn yn ogystal â Sarn Helen.

Sarn Helen - A Journey through Wales, Past, Present and Future, Tom Bullough, Granta Publications, 2024. Enillodd y gyfrol y 'Wobr Ffeithiol Greadigol' yng Ngwobrau Llyfr y Flwyddyn 2024. Mae'n bortread myfyriol a swynol o Gymru sy'n dilyn taith ffeithiol trwy Gymru ar hyd Sarn Helen, hen ffordd Rufeinig a arweiniai o dde i ogledd Cymru, o Gastell Nedd i Gaerhun. Wrth droedio'r llwybr, mae'r awdur yn archwilio hanes gwleidyddol, diwylliannol a chwedlonol Cymru sydd wedi'i rhannu gan iaith a daearyddiaeth gan blethu sgysiau gan wyddonwyr hinsawdd a hanes ymwneud yr awdur â mater brys yr argyfwng hinsawdd.



# YSGOL DYFFRYN OGWEN

## Yn Galw Artistiaid!

Rydym yn chwilio am artistiaid dawnus sy'n angerddol am Eryri a gwarchod ein tirwedd hardd i gydweithio gyda Harri a Jac, Blwyddyn 9 Ysgol Dyffryn Ogwen ar brosiect creadigol, cyffrous ac arloesol!

Yn dilyn eu llwyddiant yn ennill cystadleuaeth categori 'Creadigrwydd' Parc Cenedlaethol Eryri yn COPA1 fis Medi diwethaf, a hynny allan o 79 o ymgeiswyr, maent yn awr yn barod i ddechrau ar y gwaith dylunio a chreu er mwyn gwireddu eu syniad o greu gosodiad celf mawr ym mhentref Llanberis. Eu tasg oedd datrys yr argyfwng llygredd plastig ar Yr Wyddfa fel rhan o brosiect 'Yr Wyddfa Ddi-blastig'.



Felly, os ydych chi'n artist sy'n awyddus i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf a rhannu eich sgiliau, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych, p'un a ydych chi'n beintwr, yn gerflunydd, yn arlunydd, neu'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng artistig arall, mae hwn yn gyfle gwych i gael effaith barhaol ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano:

- Artistiaid o bob math
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc yn fanteisiol
- Angerdd am addysgu ac ysbrydoli creadigrwydd
- Parodrwydd i rannu eich taith artistig a'ch technegau
- Profiad o weithio gyda deunyddiau wedi'u hailgylchu/yn yr awyr agored yn fanteisiol

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect ysbrydoledig hwn, cysylltwch ag: [alec.young@eryri.llyw.cymru](mailto:alec.young@eryri.llyw.cymru) neu [Catrin.pritchard@dyffrynogwen.ysgoliongwynedd.cymru](mailto:Catrin.pritchard@dyffrynogwen.ysgoliongwynedd.cymru)

## Gwasanaeth Coffa'r Holocaust

Bu rhai o haneswyr y Chweched Dosbarth ar raglen Heno S4C a ddarllledwyd o Wasanaeth Coffau'r Holocaust ym Mhrifysgol Bangor. Cafodd Cian McCleod a William Jones eu cyfwrdd ynglŷn â'u profiadau yn ymweld ag Auschwitz llynedd. Darllenodd grŵp o flwyddyn 12 o flaen y gynulleidfa, roeddent i gyd yn wych ac wedi cynrychioli'r ysgol yn y modd gorau posibl.

## Cwrs Awyr Agored

Aeth criw o fechgyn blwyddyn 10 i helpu Partneriaeth Tirwedd y Carneddau i blannu coed yng Ngwern Gof Uchaf yn ddiweddar. Profiad gwych i'r criw!



## Pêl-rwyd

Cafwyd gêm bêl-rwyd gyffrous a hynod gystadleuol rhwng merched blwyddyn 7 a merched blwyddyn 8. Y sgôr terfynol oedd 8-8. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm am gêm llawn ysbryd chwaraeon!



Timau pel rwyd blynyddoedd 7 ac 8j

Aethant ymlaen i chwarae yn arbennig yng nghystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd. Wedi curo Ysgol Y Creuddyn 7-5 cafwyd gêm anodd tu hwnt yn erbyn Ysgol Castell Alun yn y rownd gynderfynol gan golli 10-4. Roedd y tim wedi gorffen yn 3ydd yn y grŵp, ac felly maent yn mynd ymlaen i'r cam nesa. Roedd yr athrawon yn falch iawn. Diolch i Mrs Wallis am ddod i gefnogi!

## Traws Gwlad

Llongyfarchiadau i redwyr traws gwlad yr ysgol fu'n cystadlu yn ras traws gwlad ysgolion Arfon yn ddiweddar, pob un wedi dangos gwydnwch ac wedi perfformio'n gryf. Llwyddodd Angharad Llwyd o flwyddyn 7 i orffen yn 3ydd a Gruff Beech o flwyddyn 9 i orffen yn 9fed mewn rasys agos iawn. Bydd y ddau yn cynrychioli Arfon yn y rownd nesaf.



Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu  
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl  
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: [www.samariaidbangor.cymru](http://www.samariaidbangor.cymru)

**Cynrig a Carys Hughes,**  
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB  
(01248 601318)  
carys16@hotmail.com

## Menter newydd Llaethdy Glanrhyd

Mae'n braf cael adrodd bod menter busnes newydd wedi cychwyn yn yr ardal. Agorwyd cangen newydd o fusnes Fferm Glanrhyd yn ddiweddar, sef gwerthu llefrith ac ysgytlaeth yn uniongyrchol i unigolion. Mae'r Llaethdy wedi ei adeiladu dros y ffordd i barlwr godro Glanrhyd, ar ochr yr A4244 ac ychydig cyn cyrraedd cylchfan Tŷ Mawr.

Mae'r Llaethdy ar agor 24 awr ar hugain ac wedi bod yn hynod o brysur â'r gymuned leol a thwristiaid yn galw i brofi'r cynnyrch. Mae peiriant hunanweini yn yr adeilad yn hawdd iawn i'w ddefnyddio, ac mae'n



Un wedi ei phlesio gyda chynnyrch Llaethdy Glanrhyd

cymryd taliadau cerdyn neu arian parod. Gellir prynu llefrith ffres, ysgytlaeth o bob math ac mae hyd yn oed beiriant te a choffi ar gael hefyd. Gellir mynd a'ch potel eich hun i'r Llaethdy neu mae modd prynu potel wydr a'i hail ddefnyddio. Mae hyn yn sicrhau bod elfen gynaliadwy i'r fenter, yn fodd i dorri lawr ar ôl troed carbon ac yn dda i'r amgylchfyd.

Mae cwmnïau ac archfarchnadoedd mawr yn rheoli'r farchnad bwyd a diod i bob pwrpas. Mae hyn wedi gweld siopau bwyd bychan yn cau a darparu llefrith i'n stepen drws yn dod i ben. Hefyd, mae'r cwmnïau a'r archfarchnadoedd yn gwasgu'r ffermwyr er mwyn cadw prisiau lawr ac mae ffermwyr yn cwyno nad ydynt yn cael pris teg am eu cynnyrch. Cefnogwch eich darparwyr bwyd a diod lleol da chi, a phob hwyl i fenter Llaethdy Glanrhyd!

## Eglwys St. Cedol, Pentir

### Gwellhad

Anfonwn ein cofion at Gwyn Jones sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar mewn ysbyty yn Lerpwl. Brysiwch wella Gwyn, rydym i gyd fel aelodau yn meddwl amdanoch.

### Clwb Crefftau

Bydd Clwb Crefftau'r eglwys, Dwylo Dawnus, yn cyfarfod yn wythnosol ar brynhawniau Gwener am 2 o'r gloch o'r 7 Mawrth yn yr eglwys. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

### Te Bach

Mae Eglwys Sant Cedol yn cynnal Te Bach bob prynhawn Mercher cyntaf y mis am 2 o'r gloch. Bydd y Te Bach nesaf a'r 5 Mawrth 2025 i ddathlu Gŵyl Dewi. Mae croeso cynnes i chi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

### Cyngerdd Gŵyl Dewi

Bydd cyngerdd yn yr Eglwys Nos Sadwrn y 1 Mawrth am 6 o'r gloch i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Mae croeso cynnes i chi ymuno a ni i ddathlu'r achlysur. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys.

### Sêl Gemwaith

Prynhawn Sadwrn 29 Mawrth bydd Sêl Gemwaith yn cael ei chynnal yn yr eglwys rhwng 2 a 4 o'r gloch y prynhawn. Dewch drawn am fargen, panad a sgwrs. Bydd yr elw mynd tuag at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys.

### Raffl Fisol

Rydym yn cynnal raffl i ennill hamper bob mis ar themâu gwahanol er mwyn codi arian. Enillydd hamper Ionawr oedd Ann Williams, yn rhoddedig gan Mair. Hoffem ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

### Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Weinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu sgwrs.

## SIÂN GWENLLIAN AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

### CYSYLLTWCH:

✉ [sian.gwenllian@senedd.cymru](mailto:sian.gwenllian@senedd.cymru)  
☎ 01286 672 076  
📍 70 Stryd Fawr, Bangor

 **Senedd Cymru**  
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan  
Gomisiwn y Senedd a gronfeydd cyhoeddus

## Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrall,  
Tregarth, Bangor, Gwynedd,  
LL57 4AU

**Ffôn:** 01248 601257

**Ffacs:** 01248 601982

**E-bost:** [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



## Glasiŷfryn a Chaerhun

### Mair Griffiths

mairpenybryn@gmail.com  
01248 352966

### Bingo

Bydd y Bingo Bach nesaf yn cael ei gynnal yn y Ganolfan am 7 o'r gloch yr hwyr 21 Chwefror. Bydd yr elw yn mynd at Gyfeillion Ysbyty Eryri i'w wario yn Ward Padarn (Ward Strôc). Mae llawer o'r ardal wedi manteisio ar y gofal arbennig mae'r cleifion yn eu cael ar Ward Padarn. Fel arfer, os hoffech gyfrannu tuag at y gwobrau bingo a raffl a'r tombola byddwn yn falch iawn o'ch cyfraniad.

### Cylch Glasiŷfryn

Cynhaliwyd cyfarfod o Glych Glasiŷfryn ar 8 Ionawr yn y Ganolfan. Croesawodd y Cadeirydd, Mair Griffiths nifer da i'r cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd. Anfonwn ein cyfarchion at Mrs Doreen Meacock a Mrs Barbara Morris sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd ac Ann Williams sydd wedi colli ei brawd yn Swydd Derby.

Siaradwyr gwadd y cyfarfod oedd Dafydd a Dawn Jones, Gwenynwyr Môn o Landdaniel. Roedd teimlad nad oedd y Gwanwyn yn bell wrth i'r ddau olrhain hanes gwenynwyr o'r oesoedd cynnar, 5,000 o flynyddoedd Cyn Crist, hyd at heddiw. Roedd yn sgwrs hynod addysgiadol a diddorol a chawsom gyfle i brynu mêl

arbennig oedd wedi cael ei gynhyrchu yng Ngerddi Plas Cadnant, Porthaethwy ganddynt. Diolchwyd i Dafydd a Dawn am brynhawn difyr iawn gan Margaret Owen. Jocelyn a Carole ddarparodd y te a Kath enillodd y raffl.

Ar 12 Chwefror cawn ein Cyfarfod Blynnyddol a Chymdeithasol gyda lluniaeth i ddilyn. Yna 12 Mawrth dathlwn Ŵyl Dewi gyda Cawl a Chân yn y Ganolfan am 12.30 o'r gloch y prynhawn - cofiwch! Mae croeso cynnes i chwi ymuno.

### Yn yr Ysbyty

Pob dymuniad da am wellhad buan i Mrs June Evans, 5 Waen Wen, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

### Profedigaeth

Ar 14 Ionawr bu farw Mr Arfon Evans, 39 Cae Garnedd (gynt o Fferm Penhower Uchaf, Caerhun) yn 90 oed yng Nghartref Cerrig yr Afon. Yr oedd Mr Evans yn gyn athro yn ysgol Llanfairfechan am nifer o flynyddoedd ac yna yn Brifathro yn Ysgol Pen-y-bryn, Bethesda. Cydymdeimlwn â Mrs Elizabeth Evans, ei wraig, a'r teulu i gyd yn eu colled a'u galar.

Bu farw Mr John Emyr Jones, brawd Mrs Ann Williams, 4 Bro Infryn, a oedd yn byw yn Derby ers rhai blynnyddoedd (gynt o Fethesda). Anfonwn ein cydymdeimlad at Ann a'r teulu yn eu profedigaeth.

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

### - Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd  
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

### Swyddfydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

## YSGOL RHIWLAS

### Themâu difyr

Mae'r plant yn astudio dwy thema gyffrous iawn yn Ysgol Rhiwlas y tymor yma. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn dysgu am ddeinosoriaid ac wedi cael profiadau gwych o weld deinosoriaid ar y gogleis 'Virtual Reality', deor ŵy deinosor a bod yn baleontolegwyr yn yr ardal chwarae rôl. Mae llawer mwy i'w ddarganfod am y creaduriaid diddorol yma, a llawer mwy o gwestiynau angen eu hateb. Erbyn diwedd y tymor bydd pawb yn arbenigwyr, yn sicr!



Drws nesaf, roedd y plant yn awyddus i archwilio thema 'Perfformio'. Maent wedi cael lluo o brofiadau gwych hyd yn hyn yn datblygu sgiliau cyfathrebu, creu a chydweithio'r dosbarth. Roeddem yn ffodus i gael croesawu Osian Huw o'r Candelas atom i gynnal sesiynau cyfansoddi a chanu. Bu dosbarth Onnen yn brysur gydag Osian a phawb wrth eu boddau yn meddwl am eiriau i'r gân ac yn mynd ati i ymarfer cyn perfformio i blant y Cyfnod Sylfaen. Mae hi'n gân arbennig iawn. Diolch i'r gwasanaeth Cerdd am alluogi'r plant i gael y profiad gwych yma.



### Diogelwch y Ffordd

Yn ddiweddar daeth Manon atom i gynnal sesiynau diogelwch y ffordd. Sesiynau 'Kerb Craft' gafodd plant y Cyfnod Sylfaen; rhediad o wersi ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel gan fynd allan o gwmpas y pentref i ymarfer eu sgiliau newydd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, 'Gwisga fo' oedd y prif ffocws gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd gwisgo helmed wrth fynd ar feic neu sgwter. Ymatebodd pawb yn wych i'r sesiynau - diolch Manon.



### Disgo Santes Dwynwen

I ddatlu diwrnod Santes Dwynwen cawsom ddisgo yn neuadd yr ysgol gyda digon o gŵn poeth a dawnsio. Diolch i bawb am gefnogi; codwyd £56 tuag at gronfa'r ysgol.

## Rhiwlas

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich,  
Rhiwlas LL57 4HB  
annes.glynn@gmail.com  
(01248) 351015

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mrs Myra Jones, Glenlyn, Bron y Waen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 96 oed ar 23 Ionawr. Myra yw'r wraig hynaf yn Rhiwlas erbyn hyn ac mae'n siŵr fod ganddi stôr o atgofion am y pentref. Fe'i magwyd yn Nhŷ Newydd, Rhydygroes, ac yno y bu nes iddi briodi'r diweddar Cyril Jones. Ymgartrefodd y ddau, bryd hynny, yn Nhŷ'r Ardd, Waen, Pentir, a ganwyd dwy ferch iddynt, sef Glenda Davies a'r ddiweddar Lynda Roberts. Yn 1970 adeiladwyd Glenlyn, Rhiwlas, ganddynt ac ymgartrefodd y teulu yno am 30 mlynedd. Pan adeiladwyd Stad Bron y Waen penderfynodd y ddau symud i fyw yno.

Llongyfarchwn Myra hefyd ar ddod yn hen-nain, am yr ail dro. Ganwyd Hana Dulyn, sef merch Huw Dulyn a'i bartner Catrin, ar 17 Ionawr. Llongyfarchiadau calonnog i'r rhieni newydd ac i Glenda, mam Huw, ar ddod yn nain am y tro cyntaf.

Bu mis cyntaf 2025 yn un chwerw felys i Myra, Glenda a'r teulu. Nid yn unig y



Mrs Myra Jones a'i gor-wyres Hana Dulyn

## Y Gerlan

**Caren Brown**  
07789 916166  
carenelaine@hotmail.com

### Cartref newydd

Pob dymuniad da i Cadi Ellen (Rallt Uchaf) a Gwion Williams yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno.

### Diolch

Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau, a chymdogion am eu

### Cydymdeimlad

Ar 19 Ionawr bu farw Lynda Roberts yn 71 oed yn Hosbis St. Kentigern, Llanelwy, ar ôl brwydr ddewr yn erbyn cancr. Ganed Lynda ym mis Awst 1953 a chafodd ei magu yn Nhŷ'r Ardd, Waen, Pentir a Glenlyn, Rhiwlas, nes iddi adael i ddilyn cwrs athro cynradd yn y Coleg Normal. Ar ddiwedd ei chwrs cychwynnodd ar ei gyrfa fel athrawes gynradd yn Ysgol Gymraeg Min y Ddôl, Cefn Mawr, Wrecsam. Yn ystod y Pasg 1981 priododd Lynda a John Roberts ac ymgartrefu yn Acrefair. Ganwyd un mab iddynt, sef Siôn, yn 1983. Wedi hynny symudodd y teulu bach i fyw i Rosllannerchrugog. Daeth gyrfa ddysgu Lynda i ben yn Ysgol Gymraeg Plas Coch, Wrecsam ac wedi iddi ymddeol ganed Tomi ei hŵyr cyntaf, ym mis Mai 2021 a daeth yn gannwyll ei llygad. Cydymdeimlwn yn ddiufant â Mrs Myra Jones, Glenda, Huw a'r teulu, a John Roberts, Siôn a'r teulu yn Wrecsam, yn eu profedigaeth.

croesawyd aelod newydd i'r teulu ond bu farw Lynda Roberts, merch hynaf Mrs Jones ac unig chwaer Glenda, yn ystod yr un cyfnod.

### Clwb Rhiwen

Daeth yr aelodau ynghyd ar brynhawn Mercher, 15 Ionawr yn y neuadd bentref. Pleser oedd croesawu ein gŵr gwadd sef Gareth Roberts o Fenter Fachwen. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn ei gwmni yn gwranddo ar ychydig o hanes dalgylch Rhiwlas a Phentir. Catherine a Nia oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad ac enillydd y raffl oedd Lesley.

Yn ein cyfarfod nesaf ar 19 Mawrth byddwn yn rhoi croeso i Anwen o 'Troedio, Adweitheg Gwynedd'. Edrychwn ymlaen am brynhawn diddorol, llawn profiad, yn ei chwmmi.

Os oes gennych chi ddiddordeb ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn Neuadd Bentref Rhiwlas.

### Sêl Pen Bwrdd

Daeth criw ynghyd i chwilio am fargen ac i fwynhau brecwast ar lun baps sosej a chig moch fore Sadwrn, 18 Ionawr, yn y Neuadd. Diolch yn fawr i'r pwyllgor am drefnu.

### Dawnsio Llinell

Gan i'r sesiwn ddiwethaf fod mor boblogaidd dyma roi digon o amser ichi roi dyddiad y sesiwn dawnsio llinell nesaf yn y Neuadd yn eich dyddiaduron! Nos Sadwrn, Ebrill 12 am 6.30 o'r gloch yr hwyr dan arweiniad Mike Stringer. Pris y tocynnau fydd £3 i oedolion a £2 i blant a bydd lluniaeth ysgafn ar gael i gadw'r egni i fynd! Croeso cynnes i bawb.

caedigwyd yn dilyn ei arhosiad diweddar yn Ysbyty Newrolegol Walton. Diolch i chi i gyd am y rhoddion, y cardiau, y galwadau ffôn, y blodau, a'r holl gacennau; mae Ann yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

### Ffarwel i Calan

Dymunwm y gorau i'r cerddor o'r Gerlan, Patrick Rimes – bydd yn perfformio ei gig olaf erioed gyda'r band Calan, yng ngogledd Cymru, am 7 o'r gloch ar 15 Mawrth 2025 yn Neuadd y Dref Llanfairfechan. Pob hwyl gyda dy gynlluniau newydd yn y dyfodol.

### Chwarae i'w wlad

Llongyfarchiadau enfawr i Dylan Alford, Caeau Gleision, a ddewiswyd i chwarae i garfan Chwe Gwlad Cymru o dan 20 oed cwta ddeufis ers iddo chwarae ei gêm gyntaf i Rygbi Gogledd Cymru ddiwedd Tachwedd. Bydd yn chwarae ar ran ei wlad ymhlith y blaenwyr. Gyda thimau ieuentid Clwb Rygbi Bethesda y dysgodd grefft yn y lle cyntaf. Edrychwn ymlaen yn arw at ddilyn ei hanes ar y maes wrth i'w yrfa ddatblygu. Pob dymuniad da iti, Dylan.

## Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

### Gwasanaethau'r Sul

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

2 Mawrth	Dr Ian Morris
9 Mawrth	Dafydd Coetmor Williams
16 Mawrth	Parch Aled Davies

Croeso cynnes i bawb.

## BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant gan Natasha



Cacennau, Peis a Sawrus  
Te Prynawn a Bwffe ar gael

@CeginKaren Tel: 07886 560781  
Ebst / Email: ceginkaren@btinternet.com

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)  
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Dathlu penblwydd arbennig

Daeth Steph, 34 Cae Gwigin i ben ei phedwerydd degawd ar Ionawr 18ed, a dathlu dros y Sul yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau agos. Pob bendith iti, Step,; iechyd gwych i fwynhau'r degawd nesa, ac ymhell y tu draw i hynny. Diolch iti am fod yn gymdoges dda, ac am dy gonsyrn am eraill.

Fel arall, mae newyddion o'r pentref yn sobr o denau. Bobl Talybont, plis wnewch chi roi gwybod imi os bydd digwyddiad o bwys yn y teulu? Gyrrwch nodyn bodyn ar 07765 600822 neu dowch draw i Ddolhelyg i ddeud wrthyf. Fedra'i ddim dibynnu ar 'Facebook', sori! Diolch yn fawr iawn, Barbara.

### Profedigaeth

Yn 58 oed ar 4 Ionawr, ar ôl salwch hir, bu farw Aled Wyn Morris yn dawel, gyda'i deulu wrth ei ochr. Hogyn o Gae Gwigin, Talybont oedd Aled. Yn fab i'r diweddar Ifor a Marjorie Morris, ac yn frawd i Marian. Gadawodd yr ardal yn 18 oed i fynd i Brifysgol Brighton, ac achlysurol oedd ei ymweliadau â Chymru wedi hynny. Roedd yn byw yn Littlehampton, Sussex. Cynhaliwyd ei angladd ar 23 Ionawr, ac anfonwn ein cydymdeimlad at ei wraig, Caroline, ei ddwy ferch, Jessica ac Amelia, ei feibion yng nghyfraith, Nathan a Tom. Hefyd ei chwaer, Marian a'r teulu oll.

### Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Aled Wyn Morris ddiolch o galon i bawb am y cardiau, y negeseuon a'r geiriau caredig a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Ymchwil Cancr a 'St. Winifred's Hospice'. Mae Marian yn ddiolchgar dros ben i'r Prifardd Ieuan Wyn am y penillion isod er cof am Aled:

Er iddo adael Cymru,  
A mudo 'mhell o'i fro,  
Roedd rhan o'i galon yno,  
A'r ardal yn y co'.

Ei Dalybont yn aros  
O hyd ers bore oes –  
Cae Gwigin a Dolhelyg,  
Cochwillan, Maes y Groes.

Yn annwyl ym mhob cwmni,  
Fe hoffai godi hwyl,  
Bob amser ar ei orau  
Yn llonni gwaith a gŵyl.

Yn ŵr a thad cariadus,  
Yn frawd a chyfaill triw,  
Bydd ef yn aros ynom  
Yn ifanc heb un briw.

### Cofio Roy Hogia Llandegai

Ar 15 Ionawr, clywyd y newyddion trist am farwolaeth Roy Astley yn Ysbyty Gwynedd yn 91 oed. Gŵr annwyl Glenys, tad caredig i Glenda a David, tad yng nghyfraith i Richard a Vicky, a brawd i Ken. Roedd hefyd yn daid a hen-daid hoffus i'w wyrion a'i orwyrion. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor, bnawn Mawrth 11 Chwefror.

Roedd Roy yn byw yn Llanfairfechan ers sawl blwyddyn, ond hogyn o Dan-lôn, Talybont oedd Roy ac fe ddaeth yn aelod o griw sgiffll Hogia Llandegai yn 1958. Arweiniodd hynny yn naturiol at berthyn i bedwarawd Hogia Llandegai o 1964, a bu'n aelod hyd 1973. Roedd yn gerddor dawnus, yn canu'r gitâr a'r piano ac yn meddu ar lais tenor swynol. Felly, roedd yn gaffaeliad mawr i'r Hogia yn y cyfnod prysur hwnnw yn cyhoeddi'r holl recordiau a rhaglenni teledu, a chynnal cyngherddau lu.



Hogia Llandegai 1967,  
Roy ar y chwith  
(Llun: Teldisc Pops-y-Cymro)

Rwy'n trysori'r llwyth o atgofion hapus am yr hwyl a'r miri a gefais yng nghwmni Roy a Ron a Now. Diolch amdanynt a chyfraniad Roy i hynny. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u colled. Neville

## Capel Bethlehem

Oedfaon am 2 o'r gloch

23 Chwefror	Parch. Dafydd Job
2 Mawrth	Parch. Dafydd Coetmor Williams
9 Mawrth	Parch. Ddr. Geraint Tudur.
16 Mawrth	Trefniant lleol.
23 Mawrth	Parch. John Pritchard.
30 Mawrth	Parch. R. O. Jones.

Croeso cynnes i bawb.

### Bwrlwm

Ail-gychwynnodd cyfarfodydd Bwrlwm Bethlehem ar bnawn lau, 9 Ionawr, ac fe'u cynhelir yn y festri am 2 o'r gloch bob bythefnos croeso i bawb.

### Aelod Newydd

Gorchwyl hyfryd yw gallu croesawu aelod newydd i'n plith ym Methlehem y dyddiau hyn. Rydym yn estyn ein croeso cynhesaf i Mrs Iona Wyn Jones o Landygai.



### Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Doris Shaw ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Roedd ei ffrindiau wedi gofalu ei bod yn cael cacan i ddathlu'r achlysur yn y Bwrlwm.



Proffesiynol, diogel  
a chyfrinachol

**LLEDDFU POEN**

Cefn, cyhyrau, esgyrn,  
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk  
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE



# Gair neu ddau

John Pritchard

## TRUGAREDD A TRUMP

Ydi, mae o'n ôl yn y Tŷ Gwyn. Roedd ei ddychweliad yn anochel yn sgil y glust waedlyd a'r dwrn cadarn a'r floedd herfeiddiol "Fight" wedi'r ddihangfa yn Butler, Pennsylvania ar 13 Gorffennaf y llynedd. Yn amlwg, mae ei esboniad o'r hyn a ddigwyddodd yno wrth fodd ei gefnogwyr: 'Mi gefais f'arbed gan Dduw er mwyn gwneud America yn fawr eto.'

Mae geiriau'r Arlywydd yn f'anesmwytho am o leiaf ddau reswm. Yn gyntaf, pwy all ddeall meddyliau a bwriadau Duw? 'Pwy a adnabu feddwl yr Arglwydd, i'w gyfarwyddo?' (1 Corinthiaid 2:16). Mae ffyrdd Duw y tu hwnt i'n deall a'n gallu i'w hesbonio. Yn ei drugaredd, mae Duw wedi siarad â ni trwy ei Air a thrwy ei Fab Iesu Grist; ond rhyfgyr ar ein rhan ydi honni deall mwy nag a ddatguddiwyd. Fedrwn ni ddim deud pam fod Duw yn gwneud hyn ac arall o ddydd i ddydd, pam ei fod yn caniatáu i bethau da neu ddrwg ddigwydd. Mae Trump yn ei wneud ei hun gydradd â Duw wrth honni deall yr Hollalluog.

Ac yn ail, os ydi o'n argyhoeddedig iddo gael ei arbed gan Dduw mi fyddai disgwyl iddo fod yn fwy gostyngedig. I bawb sydd ag unrhyw ddealltwriaeth synhwyrol a chrediniol o'r Beibl ac o Dduw, trugaredd Duw sydd wraidd pob ymdeimlad o gael ein gwared ganddo. A'r un peth y mae trugaredd Duw yn esgor arno yn y sawl a'i derbyniodd ydi trugaredd at eraill. Ond am fod Trump yn amlwg o'r farn iddo gael ei arbed am ei fod o ei hun mor sbesial, y mae'n gwbl amddifad o'r trugaredd hwn.

Gwnaed hynny'n amlwg ddigon o fewn dyddiau i'w urddo. Er tegwch,

rhaidd cydnabod ei ran er sicrhau'r cadoediad a ddaeth i rym yn Gaza ar Ionawr 19, ddiwrnod cyn yr urddo. Ond roedd y modd y soniai am Gaza wedyn yn bradychu ei ddiffyg trugaredd (heb sôn am ei ddiffyg crebwyll gwleidyddol). Mae'r lle yn 'chwalfa lwyr', meddai, a 'does neb ar ôl beth bynnag'. A'i ateb i'r argyfwng a'r llanast ydi symud miliwn a hanner o drigolion Gaza i'r Aifft a Gwlad yr Iorddonen. A hynny mewn gwirionedd nid er eu lles a'u diogelwch ond gyda'r bwriad o ail adeiladu a datblygu'r darn gwerthfawr hwn o dir! Oherwydd yng nghanol y rhyfela a'r dioddefaint a'r argyfwng dyngarol yr hyn a wêl Trump ydi gwerth posibl y 'wonderful place' hwn efo'i haul a'i draethau a fyddai, o'i ddatblygu'n iawn, yn gyrchfan debyg i Monaco, os nad gwell. Erchyll o beth ydi bod gwladwriaeth Israel am wared â chenedl y Palestinaid er ei 'diogelwch' hi ei hun. A mwy erchyll fyth – pe byddai hynny'n bosib – fyddai i neb, heb sôn am Arlywydd un o wladwriaethau mwyaf pwerus y byd, ystyried gwared â chenedl er mwyn elw ac er mwyn troi ei thir yn faes chwarae i gyfoethogion y byd hwnnw.

Ac fel pe na fyddai hynny'n ddigon, daeth prawf pellach o'i ddiffyg trugaredd cyn diwedd y mis. Drannoeth y ddamwain awyren ddifrifol yn Washington, trodd dau neu dri munud o gydymdeimlad â theuluoedd y 67 o bobl a laddwyd yn chwarter awr a mwy o feirniadaeth ar bawb a phopeth ac yn folawd iddo'i hun a'i bolisiau.

Duw a'n gwaredo rhag y fath ddiffyg trugaredd sy'n ein gwneud mor ddibris o werth bywyd nes bod elw a mantais bersonol yn bwysicach na chyfiawnder a lles eraill.

# Nyth y Gân



## MYNYDD YN Y GAELF

Newid mae eira newydd, yn oer gap  
Ar gopa y mynydd;  
Yno y deil nos a dydd  
Nes daw yn gynnes dywydd.



## EVAN ROBERTS A'R BLODAU ALPAIDD PRIN

(Warden cyntaf Gwarchodaeth Natur  
Cwm Idwal)

Braf yw'r unigrwydd weithiau  
I gerdded yn y cwm  
A gweled y trysorau  
Sy'n harddu lle mor llwm.

Nid pawb a wŷr amdanynt,  
A bychan ydynt hwy  
Sy'n tyfu ar y creigiau  
Mewn dim ond ambell blwy'.

A thyfu wnaeth gwybodaeth  
Un gŵr am rai fel hyn  
Sy'n harddu llymder silffoedd  
Y creigiau uwch y llyn.

Fe gofiwn ni amdano,  
Un hynod graff oedd ef;  
Am oriau byddai'n edrych  
Ar gyfoeth dan y nef.

## AFON OGWEN

Ym mhen y llyn mae'n cychwyn  
Yn gyflym ar ei thaith;  
Syrthio dros feini cadarn  
I'r Nant a'i chorsydd llaith.

Ac yn ei nerth mae'n llifo  
Drwy'n dyffryn yn ddi-daw,  
Ac yna drwy y Penrhyn  
I Aberogwen draw.

Hyd heddiw deil i redeg  
I'r môr yn llawn ei lli,  
A dyfroedd Afon Menai'n  
Rhoi croeso iddi hi.

Dafydd Morris

# MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysio Teiars  
Batris  
Tracio



01248 600619

[moduronpandy@yahoo.com](mailto:moduronpandy@yahoo.com)

[www.moduronpandymotors.co.uk](http://www.moduronpandymotors.co.uk)

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



## Cyfrannu at Gêm Fideo


Mae'r galw am wasanaeth y côr yn bell ac agos yn fater o gryn falchder i'r arweinydd ac i'r aelodau. Bydd pawb yn cofio cyfraniad y côr yn Llundain, Blackpool a Glastonbury ar gais Damon Albarn (cyn leisydd grŵp enwog 'Blur'). Canodd y côr hefyd gyda'r grŵp Cymraeg a Chymreig 'Nain Bach' yn Pontio ac yna'n ddiweddar gyda Gwen Siôn, cyfansoddwraig o Rachub, mewn prosiect o'r enw 'Llwch a Llechi' a berfformiwyd yng Nghaerdydd.

Prosiectau arbrolfod oedd rhai o'r rhain gyda'r côr yn cyfrannu sain cefndir i'r prif berfformwyr. Er mai sain yn y cefndir oedd nifer o'r darnau, roedd yn ofynnol i'r côr ddysgu harmonïau astrus a heriol a olygai oriau hir o ymarfer a dysgu nodau newydd a gwahanol.

Yn fwyaf diweddar cafodd y côr wahoddiad gan ŵr o'r enw Bear McCreary o Los Angeles i gyfrannu at sgôr gefndir gêm fideo. Mae Bear McCreary yn gyfansoddwr enwog ym myd ffilmiau a theledu – cyfansoddodd y sgôr ar gyfer amryw o ffilmiau mawr megis Battlestar Galactica, Lord of the Rings, Outlander a Godzilla: King of the Monsters. Dywedodd Bear McCreary “yn ychwanegol i'r sain

cefndir gan y côr bydd adran lle mae pawb yn canu'r brif alaw'n unsain gyda'r prif leisydd yn Saesneg”. Pan wrandawodd Aled Williams ar y trac sylwodd mai tri rhan byr fyddai gan y côr a harmoni yn y canol yn debyg i gyfansoddiadau Enio Morricone, y gŵr a gyfansoddodd ddarnau cefndir holl ffilmiau Sergio Leone megis 'A Fistful of Dollars' a 'For a Few Dollars More'. Wrth recordio'r trac roedd Bear McCreary yn gwrandao ar y côr dros 'Zoom' o Unol Daleithiau America ac yn rhoi adborth i Owain Arwel.

Ie, côr mentrus ac arloesol ydy Côr y Penrhyn. Pan ddaw'r gêm fideo ar y farchnad bydd seiniau'r côr i'w clywed dros y byd.



Bear McCreary, cyfansoddwr sgoriau ffilm, teledu a gemau fideo.

## Colli cyn-aelod

Daeth newyddion trist i'r rhan fel côr yn ystod mis Ionawr pan gyhoeddwyd marwolaeth un o'n cyn aelodau, y diweddar Dilwyn Griffiths, yn 66 mlwydd oed. Bu'n canu am gyfnod hefo'r tenoriaid cyntaf – roedd ganddo lais tenor pur yn y cyfnod hwnnw a gallai gyfrannu'n dda i nodau uchaf y côr. Roedd Dilwyn yn gymeriad hoffus a gwreiddiol a chawsom lawer o hwyl yn ei gwmni ar deithiau'r côr. Plastrwr oedd Dilwyn wrth ei alwedigaeth a châi ei gyfrif ymhlith y goreuon yn y grefft honno. Bydd bwllch ar ei ôl a chydymdeimlwn yn ddwys â holl aelodau'r teulu. Bu ei angladd ar Ddydd Llun 10 Chwefror yn Amlogfa Bangor.

## Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Elfyn Roberts.

**Be' ydy dy enw llawn?** Elfyn Roberts

**Oed?** Mawr

**Gwaith?** Athro wedi ymddeol

**Lle wyt ti'n byw?** Bryn Caseg, 100 metr o Gerlan

**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Gerlan

**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** - Teyrngar, Hael, Ffraeth

**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ymaelodi yn 15 oed yn 1974 tan 2016 wedyn ail ymuno yn 2024.

**Pa lais wyt ti?** Bas 2

**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?**

Dim llawer o ddewis achos bu fy nhad, y diweddar Harri Roberts, yn aelod, yn gadeirydd ac yn llywydd y côr am flynyddoedd.

**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?**

Bryniau Melynion **Geiriau:** Ieuan Wyn **Alaw:** Gareth Glyn.

**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?**

Ivan Rebroff

**Beth ydy dy farn di am ganu pop?**

Dwi'n hoff iawn o ganu pop. Mae'r ddwy ferch acw a'u Mam yn mwynhau amrediad eclectig o gerddoriaeth pop.

**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Sawl atgof ond canu am y tro cyntaf yn Neuadd Albert, Llundain gyda'r Mil o Leisiau yn wefreiddiol.

**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n hoff o chwaraeon o bob math yn enwedig Rygbi, Golf a cherdded.

**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** – Atgyfodi rhai o'r hen ddarnau megis 'Y Pysgotwyr' i ni gael clywed y storm yn ymgodi yn Bas 2.

**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** – Dwi wedi gwneud llawer iawn o ffrindiau a chyfarfod pobl o nifer o wledydd y byd drwy fod yn aelod o'r Côr.



# CHWARAEON

## Dreigiau'r Dyffryn

Dydd Sadwrn 25 Ionawr aeth aelodau talentog Clwb Gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn draw i Venue Cymru Llandudno i seremoni wobrau gymnasteg Gogledd Cymru, a dyna i chi lwyddiant a gafwyd yno. Derbyniodd naw o aelodau' a hyfforddwyr y Clwb wobrau



- llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Rydych chi'n wirioneddol haeddu eich gwobrau. Mae'r Clwb yn amlwg yn mynd o nerth i nerth ac yn darparu profiadau o ansawdd i blant a phobl ifanc y fro - mae'n ehangu nifer y sesiynau a gynigir i nifer cynyddol o aelodau.

- Gymnastwraig y flwyddyn- Bethan (Felinheli)
- Gymnastwr gwrywaidd y flwyddyn- Rory (Bangor)
- Y fenyw sydd wedi gwella fwyaf – Kate (Tregarth)
- Gwryw sydd wedi gwella fwyaf- Iwan (Rachub)
- Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig- Efa (Llanllechid)
- Hyfforddwr y flwyddyn – Katie (Tregarth)
- Hyfforddwr iau'r flwyddyn- Mia (Bethesda)
- Helpwr y flwyddyn- Alaw (Gaerwen)
- Arwr di-glod- Sioned (Llanrug)

Braf hefyd yw gweld clwb lleol fel hyn yn elwa o lwyddiant cynllun hydro Ynni Ogwen. Mae elw o'r hydro yn cael ei ddsbarthu



trwy Elusen Ogwen i gefnogi cynlluniau sy'n gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau yn Nyffryn Ogwen. Llwyddodd Dreigiau'r Dyffryn yn eu dau gais am grant i'w galluogi i wireddu cynllun 3 blynedd i osod goleuadau LED newydd yn eu 'gym' ar stad ddiwydiannol Coed y Parc. Yn ôl Sophie Pipe Cyfarwyddwr y Clwb mae'r sribedi LED newydd yn cynhyrchu golau cliriach a llawer mwy disglair gan ddefnyddio bron i 70% yn llai o ynni na'r sribedi fflwroleuol hŷn. Mae hynny'n helpu'r clwb i leihau ei ddefnydd o ynni ac arbed arian.

## Bowlio dan do gyda Bys a Bawd

Bydd dilynwy'r golofn hon yn cofio inni adrodd hanes ymweliad Clwb Bowlwyr Hŷn Bethesda â chanolfan fowlio dan do Prestatyn cyn y Nadolig. Ynghanol heth lonawr mentrodd yr un criw, mwy neu lai, yn ôl i'r dref honno i geisio cadw min ar eu gêm gogyfer â'r tymor newydd bowlio mewn cynghrair uwch. Yr unig wahaniaeth y tro hwn oedd bod aelod 'ifanc' newydd wedi dod efo ni. Mr Alun Davies, Rheolwr Côr y Penrhyn a'r gwneuthurwr clocio trydan medrus o'r Gerlan oedd hwnnw.



Alun Davies y 'disgybl fowliwr'

### Tîm A yn wan a'r hyfforddwr yn dwrddio

Yn ffodus i weddill yr anturiaethwyr, roedd y capten poblogaidd wedi dewis bod yn hyfforddwr i'r 'disgybl fowliwr' Alun Davies. Gwyddai'r gwron o Hen Dyrpeg nad oedd unrhyw un arall o'r criw yn meddu'r sgiliau i hyfforddi dechreuwr ac felly aberthodd ei gêm ei hun er mwyn cynorthwyo'r dibrofiad. Yn ôl ei dystiolaeth ei hun, mae Alun yn edrych ymlaen at gael ymuno â'r tîm yn Adran A ac ymhen y rhawg bydd y pwyllgor llawn yn penodi panel i roi cyfweiliad iddo. Mae'n bosibl y bydd Alun yn 'aelod dan hyfforddiant' rhywro yn y dyfodol a bydd yn cael gwybod ei dynged tua diwedd tymor 2026.

Felly, aelodau tîm A oedd yn cynnwys y Prif Hyfforddwr Poblogaidd a'r disgybl fowliwr oedd yn brwydro'n erbyn y cyn bostyn, Heddwyn a'r is-dirmon Alan Griffiths. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r dewin o Hen Dyrpeg a'r disgybl fowliwr, ni allent wrthsefyll galluoedd anghyffredin y postyn rhadlon a'i bartner. Reit ar ddechrau'r ornest bu raid i'r

athro ddwrddio'i ddisgybl yn hallt am arddangos gwendid o flaen y byd. Mae'n debyg i'r disgybl fod yn fyr gyda'i ymdrech gyntaf efo pêl fowls yn ei law ac oherwydd hynny iawn oedd iddo gael ei gystwyo'n hallt gan ei hyfforddwr. Yn anffodus iddo ni weithiodd tafodi, dwrddio na rhegi i ddod â llwyddiant i chwaraewr gorau Cymru.

### Cynghorydd a'i bartner yn bowlio'n llyfn

Yn yr ail grŵp y tro hwn gwelwyd y dyfarnwr mwyn, M John Baston, yn llwyddo i gael 'madael a'i bartner aflwyddiannus o'r gêm cyn y Nadolig. Dewisodd y bowliwr beiddgar o Dalybont chwarae gyda'r Bonheddwr Denzil Jones, o Landygái. Eu gwrthwynebwy'r oedd y Cynghorydd George Owen a'r gohebydd bowlio.

Dechreuodd y dyfarnwr hoffus a'i bartner yn hyderus gyda Mr Baston yn annog Mr Jones i arddangos ei sgiliau fel pencampwr. Yn anffodus iddyn nhw roedd y Cynghorydd Owen wedi hen arfer â thriciau taseilio hyder gwrthwynebwy'r fel rhai'r dyfarnwr. Dim ond gan gricedwyr o Awstralia y


gwelwyd y fath 'sledjo' ar chwaraewyr y tîm arall yn digwydd. Er gwaethaf sgiliau lawnt gefngrom y Bonheddwr Jones, doedd hynny'n mennu dim ar y cynghorydd a'r gohebydd. Roedd George yn chwip o chwaraewr ar lawnt deg fel Prestatyn.

Ceisiodd Mr Baston weiddi'n groch ar ei bartner "Mae rhain wedi cael lwc eto Denz" ond er gwaetha'r ffaith eu bod 'ar ei hôl hi' daeth Baston a Jones yn eu holau'n gryf gan gau'r bwch rhyngddyn nhw a'r buddugwyr. Ar un cyfnod roedd y ddau o Dalybont a'i bartner dawnus i lawr gymaint â 10 pwynt yn erbyn y Cynghorydd a'i bartner. Peth prin ryfeddol yw gweld dau 'geffyl blaen' yn colli i'r fath raddau yn erbyn dau 'underdog'.

Ar ddiwedd yr ornest fodd bynnag, pedwar pwynt yn unig oedd rhwng y ddau dîm. Yn ôl rhai o'r gynulleidfa niferus digwyddodd hynny oherwydd bod George a'r gohebydd wedi tynnu eu traed oddi ar y sbardun a gadael i'r ddau gollwr nesáu atynt.

Mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at y cyfarfod nesaf.

# CROESAIR



## AR DRAWS

- 1 Rhaid i'r ugain mil sant newid unwaith cyn croesi'r dŵr i'r ynys (4)
- 4 Swnio fel dyffryn yn y deheubarth i dalu treth arbennig (5)
- 8 I'w cael wrth ffraeo'n aml (8)
- 9 Braster i goginio (4)
- 10 Unigolyn sy'n offeiriad (6)
- 11 Closio a mynd yn nes at ferch efallai (6)
- 12 Dylanwad i gael cawl yn swper da (7)
- 16 Cyfnewid, fel un am un (6)
- 18 Cafwyd twf newydd am i dipyn o dipyn roi trefn ar y toriad (6)
- 20 Diagram mathemategol (4)
- 21 Fel o'r Ysgol Sul i'r Rhyl unwaith y flwyddyn (8)
- 22 Coeden yr hadau hofrennydd (5)
- 23 Unrhyw fan (4)

## I LAWR

- 2 Mae hi'n perthyn trwy resymu â'i thaid (5)
- 3 Osian Ellis neu Pencerdd Gwalia (7)
- 4 "O - - - - - dydd pan fo awelon Duw yn chwythu eto ...." emyn gwladgarol (5)
- 5 Mae 'na le yn y canol i'r genod sugno gwaed! (7)
- 6 Gwelltyn rhag i'r môr esgyn yn rhy uchel i'r arfordir (6)
- 7 Hylif bywyd (5)
- 12 Tanwydd i oleuo'r lamp ers talwm (7)
- 13 Dim yn rhy aml (7)
- 14 Roedd yr arweinydd eisiau ei gôr i wneud hyn yn glir a gofalus wrth ganu (6)
- 15 Pared siâp 'L' ynghanol y tŷ (5)
- 17 Wurlitzer neu harmoniw (5)
- 19 Beth brynodd Gwenni yn ffair Pwllheli? (5)

## ATEBION CROESAIR IONAWR 2025

**AR DRAWS** 1 Pill, 3 Astell, 7 Ceinewydd, 8 Grym, 9 Diddordebau, 11 Taflod, 13 Unswydd, 15 Eilunaddoli, 19 Clyd, 20 Amgylchedd, 21 Croen, 22 Dot

**I LAWR** 1 Pleidiau, 2 Llenyddol, 3 Aeddfedu, 4 Tagfa, 5 Llwyth, 6 Cwyr, 10 Dylifent, 12 Deugain, 14 Siocled, 16 Ildio, 17 Atgo, 18 Clec

Y lithriadau welwyd y tro yma oedd 'ardaloedd' yn lle 'amgylchedd' (20 Ar Draws), 'awdl' yn lle 'atgo' (17 i Lawr) a 'gwyr' yn hytrach na'r ateb cywir 'cwyr' (6 i Lawr)


Canmolir y canlynol am atebion hollol gywir: Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Iona Williams, Llanddulas; Judith Hughes, Llangoed; Barbara Jones, Talybont; M. A. Jones, Rachub; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; John Ffrancon Griffith, Abergele; Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Valmai Evans, Fulham

Yr un sy'n derbyn y wobr y tro hwn ydi M. A. Jones, Awelon, Llanllechid, Rachub, Bangor LL57 3ED. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn **7 Mawrth 2025** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i '**Croesair Chwefror**', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



**MODURDY  
FFRYDLAS**

  
Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**  
A.LL. ac R.W. WILLIAMS  
**Stryd Fawr, Bethesda**  
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO  
TEIARS A BATRIS  
GWASANAETH TORRI I LAWR  
NEU DDAMWAIN

**Ffôn: 600 723**  
E-bost: [ffrydlas@btconnect.com](mailto:ffrydlas@btconnect.com)

Dilynwch Llais  
Ogwan ar X  
**@Llais\_Ogwan**

